# DINESYDD
## Meh—Gorff

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1979 Rhif 59


RADIO CAERDYDD...DARLLEDU CAERDYDD...RADIO CAERDYDD...DARLLEDU CAERD

# Nodyn o hyder ... a phryder

**Rhoddwyd yr hawl i ddarlledu yn y Brifddinas a Bro Morgannwg i grwp a sefydlwyd er mwyn sicrhau rheolaeth ar y gwasanaeth gan y gwrandawyr. Derbyniodd yr Awdurdod Darlledu Annibynnol fod trefniant y cwmni, ei syniadau am raglenni a'r ddarpariaeth ariannol yn ddigon cryf i allu ymddiried y dasg o wasanaethu'r Brifddinas i grwp oedd yn hollol wahanol i unrhyw orsaf radio arall ym Mhrydain. Beth sydd wedi digwydd yw cyfle i ddinasyddion Caerdydd i reoli eu gorsaf eu hunain.**

Mae'n bwysig deall adeiladwaith y cwmni o'r cychwyn. Mae deuddeg o gyfarwyddwyr, chwech wedi eu dewis o blith y buddsoddwyr oedd yn fodlon cefnogi'r syniad o'r cychwyn a chwech a etholwyd mewn cyfarfod cyhoeddus i gynrychioli mudiadau ac unigolion o'r ddinas. At hyn fe sefydlwyd ymddiriedolaeth ddarlledu yn yr un cyfarfod a phwrpas hwnnw yw addysgu'r bobol yn y cyfrwng a sicrhau bod cyfle i bob rhan o'r gymdeithas i gyfrannu yn y rheolaeth.

Mae dau fath o gyfranddaliad i'r cwmni. Un math o siâr sy'n geiniog, yr un, ac y mae'r rheiny i gyd yn perthyn i'r Ymddiriedolaeth. Un arall sy'n bunt yr un ac ar gael mewn unrhyw nifer i bwy bynnag fynnai fod yn fuddsoddwr, fel buddsoddwr mewn unrhyw gwmni cyffredin. Y gobaith yw y bydd nifer fawr o'r boblogaeth leol yn dod yn fuddsoddwyr yn y cwmni yn ogystal â bod yn etholwyr drwy'r ymddiriedolaeth. Does dim angen gradd mewn economeg i sylweddoli fod hyn yn golygu y bydd yr orsaf i gyd yn nwylo a than reolaeth pobol Caerdydd waeth faint yw eu cyfoeth ariannol.

Ond wrth ein rhaglenni y'n hadnabyddir ni. Penderfynwyd bod anghenion Prifddinas Cymru am fwy na dogn o fiwsig pop, ac felly aethpwyd ati i gynllunio amserlen raglenni fyddai'n dibynnu'n helaeth ar siarad a sgwrs a chynllunio'r anghenion technegol er mwyn hyrwyddo'r syniadau yma. Bydd stiwdio o fewn cyrraedd siopwyr y dref â staff bychan o newyddiadurwyr a gweithwyr cymdeithasol yno i gymryd sylw o'r problemau dyddiol, bach a mawr. O dipyn i beth gobeithiwn adeiladu rhwydwaith o gyfranleoedd bychan ledled y dalgylch, a'r cyfan yn dod â'r dinasyddion i siarad a thrafod â'i gilydd ar eu gorsaf hwy. Dyma Brifddinas Cymru yn torri tir newydd mewn darlledu ym Mhrydain. Dim ond un peth allai arafu llwyddiant ysgubol y fenter, a hwnnw yw diffyg egni i gymryd rhan ynddi. Dowch ati yn llawn brwdfrydedd i ddangos ein bod ni fel prifddinas Cymru yn haeddu'r enw a'r ymddiriedaeth a roddwyd i ni i gynnal ein gorsaf radio ein hunain.

E.O.W.



**Euryn Ogwen Williams, Darlledu Caerdydd**

**"CYFARFOD CYHOEDDUS MEHEFIN 11eg ..... Bydd y cyfarfod uchod o bwys i ddarllenwyr Y Dinesydd ......"**

Dyna rai o eiriau'r hysbyseb ar Ddarlledu Caerdydd yn rhifyn diwethaf Y Dinesydd. Ond wedi cyrraedd y cyfarfod, 'roeddwn yn flin iawn i weld mai dim ond rhyw hanner dwsin o Gymry Cymraeg oedd yno. Cafwyd cyfarfod cynhwysfawr ar hanes a datblygiadau Cardiff Broadcasting (fel y'i gelwir ar hyn o bryd), ac ar wahanol agweddau y fenter. Mae yna adran ar ddarlledu Cymraeg wedi'i nodi, ond prin fydd yr adran hon yn gallu mynd yn ei blaen os nad oes yna Gymry Cymraeg yn amlwg yn y fenter.

Nid yw'r deunydd a ddosberthir ynglŷn â Darlledu Caerdydd ar y foment yn ddwyieithog, a'r feirniadaeth oedd nad oedd digon o Gymry Cymraeg yno i gynorthwyo. O'r hyn a welais i, mae'n drist fod hynny'n wir i raddau helaeth. Bydd 30 o swyddi parhaol ynglŷn â'r fenter, a thoreth o waith gwirfoddol, ac mae'n fwriad i ddarlledu 10% o'r oriau yn Gymraeg. Nid yw hyn yw ddigon o bell ffordd, ac mae'n gyfrifoldeb arnom ni i wella hynny. Gellwch gysylltu â fi yn Siop y Triban, neu ag unrhyw un yn swyddfa Darlledu Caerdydd yng nghanolfan Chapter.

Beth bynnag fo'ch barn am Ddarlledu Caerdydd, mae'r fenter ymlaen, a phan fydd y gwaith yn dechrau o ddifrif ym mis Tachwedd eleni, rhaid i ni sicrhau bod llais Cymry Cymraeg Caerdydd yn glir a chryf ar yr awyr!

SIWSANN GEORGE


**Prifwyl Tir Iarll**
**Gweler Tud 6-7**

# Golygyddol

**Mae'n amlwg y daw tro ar fyd yn hanes llawer iawn o bobl o ganlyniad i'r cyfnewidiadau mawr economaidd a pholiticaidd, yn fewnol ac yn allanol, a ddigwyddodd yn ddiweddar. I'r rheiny sy'n ennill £50,000 y flwyddyn mae'r newyddion yn dda: bydd ganddynt hwy ryw £8,000 yn fwy y flwyddyn i'w wario. I'r rheiny sy'n byw ben arall y sbectrwm — ac y mae llawer mwy ohonynt hwy — ar waethaf rhai codiadau megis pensiwn yr hen, diolch i'r holl godiadau ym mhrisiau cymaint o bethau angenrheidiol bywyd a'r naid anferth yn y Dreth Ar Werth, mae'r rhagolygon dipyn yn llai addawol, fel y maent i lawer o bobl sy'n byw rhwng y ddau begwn hyn.**

**Fel bob amser pan fydd problemau economaidd anodd a diweithdra yn wynebu Gwledydd Prydain, mae hi'n waeth yng Nghymru nag yn Lloegr. Mae'r rhif y cant o bobl heb waith yn fwy yma a'r cyflog y pen yn llai. Gyda'r torri sydd yn yr arfaeth ar bob llaw, safwn ar drothwy cyfnod a all fod gyda'r mwyaf enbyd a welwyd yng Nghymru ers blynyddoedd.**

* * *

**Wn i faint ohonoch fyddai'n adnabod y cymeriad hwn: "O dan yr olwg allanol addfwyn, Gymreig yna, mae calon ddur yn curo. Ef yw Evita'r Cabinet". Disgrifiad yw hwn gan olfeinciwr o Dori o'r Cymro mawr Syr Geoffrey Howe, Canghellor y Trysorlys yn y Llywodraeth newydd. Ond dyma, tua blwyddyn yn ôl, sut y disgrifiai Denis Healey ymosodiad arno gan yr un person, "Mae fel cael eich anhreithio gan ddafad farw". Mae'n amlwg fod Healey'n dal i fod yn hoff o'r ddelwedd hon oherwydd ei ddisgrifiad o gyllideb gyntaf Howe oedd, "Cyllideb bleiddiast yng ngwisg dafad". Fe welwch ei fod wedi cyfoethogi'r ddelwedd rywfaint erbyn hyn a chyda llaw, awchu'i min drwy sôn am anifail rheibus yn yr un cyswllt. Efallai y cofiwch mai enw'r cyfeillion Rwsiaidd, yn ei ffordd faldodus hwy, am y "fleiddiast" oedd "Y Forwyn Haearn". Gyda'r holl ddelweddu yma, anodd peidio â meddwl bod ym mynwes pob gwleidydd, o ba liw bynnag y bo, fardd yn gweiddi am gael mynegiant.**

## *Anfonwch eich defnyddiau!*

**O hyn ymlaen, wnewch chi anfon defnydd i Afallon, 11 Clos Hendre, Llandaf CF5 2HT.** *Dyw hi byth yn rhy gynnar* **a rhaid i'r defnydd fod yn ein dwylo fan bella** *ERBYN Y 15fed O BOB MIS.* **Dim ond rhywbeth eithriadol iawn a ddylai fod yn hwyrach, hyd at yr 20fed o'r mis.**

**Os am roi pwt o newyddion ar unwaith, ffoniwch un o'r canlynol yn ddi-oed:**

**Shân Emlyn — 751469**
**Gwyn Lewis Davies — 756882**
**E. Gunston Jones — 499469**
**T. Raymond Edwards — 563588**

**Os gellwch deipio'ch erthygl, stori, etc., neu ei chael wedi'i theipio, bydd yn help mawr iawn.**

Anfonwch eitemau i'r Calendr at Mallt Anderson, 158, Ffordd Ddwyreiniol y Llyn, Parc y Rhath (Tel 753695)

Carai Pwyllgor y Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol.

# —Y CALENDR—

| | |
|---|---|
| **Gorff 10** | **Cyngerdd Haf Ysgol Rhydfelen yn Neuadd yr Ysgol** |
| **Gorff 12** | **7.30 o'r gloch. Cyfarfod Clwb Cinio Meched Caerdydd. Pafiliwn B.P. Sports & Social Club, Sili. Nia Hall Williams** |
| **Gorff 14** | **Ffair Haf Ysgol Rhydfelen** |
| **Medi 19** | **Datganiad organ Blynyddol yn Ysgol Rhydfelen. Hazel Davies** |
| **Medi 21** | **Dawns y Ganolfan yn Neuadd y Ddinas** |




**Ffenestr-siop**
**Y SIOP I CHI...**

Pan fyddwch chi'n ystyried gwelliannau i'r cartref, ac yn wynebu'r broblem o gael ffenestr neu ddrws.

Beth am... ddod i ymweld â'r arbenigwyr yng Nghanolfan Ffenestri De Cymru a gweld bron 100 mlynedd o brofiad o wneuthur ffenestri ar waith?

...weld y detholiad ehangaf posib o ffenestri a drysau patio o ansawdd dda, a'u gweld yn cael eu gwneud yn y fan a'r lle?

...weld sut y gellir arbed ar filiau gwresogi drwy dorri i lawr ar y gwres a gollir a chynyddu gwerth eich tŷ ar yr un pryd?

...dderbyn cyngor ar osod cyfarpar i mewn eich hunan — gellwch arbed 50% arall felly.

...edrych ar ein telerau hûr-bwrcas?

**Yn yr amserau caled hyn, synhwyrol yw edrych CYN prynu.**

**CANOLFAN FFENESTRI DE CYMRU**

Heol Curran, Caerdydd. tel. 388000
Llun-Gwen 9a.m. hyd 5p.m.,
Sad 9a.m. hyd hanner dydd.
Croeso mawr i'r Cyhoedd a'r Fasnach.

JONWINDOWS
*— yr enw y gellwch ymddiried ynddo* JWd
(Aelod o Grŵp John Williams o Gaerdydd Cyf.)

# MANION O'R MYNYDD BYCHAN

## Y Dr Ifan yn bwrw golwg dros bethau yn yr ysbyty

*** Run man i'r Dr. Ifan ddechre gyda gair bach am enw iawn ei sbyty. Fe welws e'n ddiweddar y Dr. Elwyn Hughes yn sôn amdano fe yn y Faner fel "Ysbyty'r Waun" — a thoc dyna'r hen Elwyn druan yn cal ei geryddu gan neb llai na'r Dr. Ceinwen Thomas, o'r Uned Ymchwil Ieithyddol Gymrâg lawr sha Cathays 'na.**

Nid "Y Waun" oedd e, meddai Ceinwen, ond "Y Mynydd Bychan", gan taw dyma oedd hen enw Cymrâg yr ardal, a felly "Ysbyty'r Mynydd Bychan" yw'n hysbyty mawr ni. Meddwl 'i fod e'n deall yr oedd y Dr. Ifan, nes y clywws e lais bach yn sibrwd mai "Ysbyty Prifathrofaol Cymru" oedd yr enw i fod mewn gwirionedd — yn gwmws fel nad yr "Heath Hospital" ond yr "University Hospital of Wales" y dyle fe fod yn yr iaith fain. Dala i bendroni a wnath yr Dr. Ifan, pan glywws rai o'r stiwdents Cymrâg 'ma'n datrys y broblem. "Ysbyty'r Heath" yw'r lle iddyn nhw. O na fyse mantision y fath addysg ddwyieithog ar gal pan oedd yr hen Ddoctor yn grwtyn!

* Beth bynnag yw enw'r lle, mae e'n llawn prysurdeb y ddyddie 'ma. Fe welws y Dr. Ifan rai cannodd o bobol, o bedwar ban byd, wedi ymgynnull yno 'n ddiweddar ar gyfer Sumposiwm Ymchwil Ryngwladol ar gellodd lewcemia. 'Nawr, smo'r Dr. Ifan bach 'ma'n meddwl ei fod wedi deall hanner y datblygiade technegol diweddaraf ym myd ymchwil cancar a gyflwynwd yma.

Ond hyfryd oedd gweld gwyddonwyr o wledydd erill Ewrop, ac o'r Unol Dalithe, yn dod ynghyd i Gardydd — yn hytrach nag i Lunden neu Baris — i gwrdd â'i gilydd yn academedd. Brysied Awdurdod Iechyd De Morgannwg ati i drefnu rhagor o'r fath achlysuron.

* Sumposiwn ymchwil un-diwrnod arall yn ddiweddar — un tu mewn i'r Ysgol Feddygol, y tro hwn, gyda rhai o staff ymchwil yr ysgol yn rhoi cipolygon ar eu gwaith nhw. Synnu a wnath y Dr. Ifan at ehangder diddordebe ymchwil yr Ysgol Feddygol, fel y'u cyflwynwd yma. Fe glywws e am beirianweth ymgrynhoi cyhyre'r galon, am effeth ymbelydredd ar y chwarenne ger-thyroid, am arbrofion ynglŷn â chancar y fron. Clywws hefyd am gyffurie newydd ar y gorwel, ac am ddatblygiade ar y gweill ynglŷn â dull newydd o drin clefyd y siwgwr, ac am gant a mil, bron iawn, o bethe erill. Sumposiwn oedd hwn a ddangosodd bod arwyddair yr Ysgol Feddygol—"Gwybod, Medr, Iachau" — yn dala mewn grym yn y Mynydd Bychan.

* Cyfarfodydd o fath eitha gwahanol hefyd wedi dechre'n ddiweddar yn yr ysbyty. Myfyriwr yn yr Ysgol Feddygol, Meirion Evans, oedd y tu ôl i'r cylchodd-trafod Cristnogol a lansiwd yn ddiweddar ymysg meddygon a myfyrwyr y lle. Y cyfarfodydd yn ddigon llwyddiannus hyd yn hyn, yn ôl yr hyn a glywws y Dr. Ifan — llawer o bobol yn teimlo angen trafod pethe fel erthylu; lladd tosturiol; anghydfod diwylliannol a delfryde galwedigaeth, ac ati, yn ogystal â phethe mwy "crefyddol". Pob un cylch trafod yn cwrdd trwy gyfrwng yr iaith fain, wrth gwrs — sy'n peri i'r Dr Ifan deimlo fel ambell weinidog, a gofyn iddo fe'i hunan p'un fyse'n well gyda fe — Cristion pybyr di—Gymrâg, ynte pagan rhonc gyda llond ceg o Gymrâg gloyw?

* Braidd yn ddwys, hynny. Ysgawnach o lawer yw rhwbeth arall y mae Meirion a'i griw'n 'i neud y dyddie 'ma. Wedi dechre neido gyda pharasiwts ma'n nhw — mynd dros y Sulie i Henffordd, a dysgu shwt ma mynd lan i'r awyr gydag awyren, a dod lawr wedyn hebddi.

* Sy'n atgoffa'r Dr. Ifan am fyfyriwr o'r Ysgol Feddygol sy'n mynd i Awstralia gyda'r Hydre i witho gyda Meddyg sy'n Hedfan. Nodwedd o'r cwrs meddygol yw bod pob myfyriwr, ar ddechre'i flwyddyn olaf, yn cal mynd am gyfnod o ddeufis i ble bynnag y mynno, i gal profiad o ryw agwedd ar feddygeth na fydde'n 'i gweld yng Nghardydd. John Shotton, y Sais hwnnw sy'n mynd i fyd y Flying Doctor yn yr Outback, fydd yn mynd ymhellach na neb arall eleni; ond nid fe fydd yr unig deithiwr pell. Rhywle dros hanner cant o fyfyrwyr o Gardydd, at 'i gilydd, fydd yn gadael Pryden am draethe'r estron ym mis Awst eleni. Ymysg y Cymry, fe fydd Jeff Thomas a Tudor Young yn torheulo yn Bermwda; fe fydd David Morris a Glyn Jones yn llafurio'n yr India, y naill yn Nyffryn Ganga (Ganges, gynt) a'r llall yn Ne'r India; i Qatah, un o dalithe olew y Dwyren Canol, y bydd Gerald Thomas ac Adrian Locker yn mynd, a Nansi Evans i wlad Groeg. Nifer da hefyd yn mynd i whilo am y Madogwys — Valmai yn Vancouver; Dyfed yn Pittsburgh; Huw Thomas yntau yn Vancouver. Mair a Marged ac Ann Evans wedyn yn Seattle — ond 'smo'r Dr. Ifan yn gweld bod rhaid i'r tair hyn fynd mor bell â Seattle er mwyn cal clebran â'i gilydd beunydd beunos: ma'n nhw'n gwneud digon o hynny yng Nghardydd fel y mae.

* A son am glebran, crwt a ddyle fedru gwneud hynny gydag odle dwbwl ne' rwbeth ydy David Morris, myfyriwr o'r Ysgol Feddygol sydd newydd basio arholiadau barddol Gorsedd Beirdd yr Eisteddfod. Fe'i urddir yn holl ysblander 'i 'wellies' gwyrddion yng Nghaernarfon eleni. Llongyfarchiade iddo — ond 'smo'r Dr. Ifan yn mynd i gredu bod Dafydd yn fardd iawn nes iddo weld barddonieth o'i eiddo. Cerddi, nid arholiade, sy'n gwneud beirdd.

* Smo'r Dr. Ifan yn rhy barod i gredu rhwbeth arall a glywws ef yn ddiweddar, whaith. Newydd honni y mae'r Athro Archie Cochrane a'i griw o ganolfan Cardydd y Cyngor Ymchwil Meddygol bod diota yn eich amddiffyn rhag afiechydon y galon. Sail hyn yw eu hastudieth o amldra yr afiechyd yn y gwahanol wledydd yn Ewrop, a ddangosodd bod trawiad ar y galon yn gymharol anaml mewn gwledydd fel Ffrainc lle yr yfir llawer o win. Ma'r Athro Cochrane yn credu nad yr alcohol, ond y pethau erill sy'n gwneud y gwin yn flasus; y "cydnawsyddion", neu'r "congeners" bondigrybwyll, sy'n debyg o fod yn gyfrifol am yr effaith hon. Fe ymddangosodd y gwaith hwn yn y Lancet (un o'r prif bapure meddygol) yn ddiweddar, ac y mae'r nith caewn o lythyron sydd wedi codi yn y wasg feddygol yn ei sgil yn dystioleth nad pob meddyg sy'n gweld y gwin fel llyn bywyd.

Hyd tro nesaf,
Y Dr. Ifan.

# PYTIAU

Croeso cynnes i Dewi, mab bach arall i Gwenda Ffransis. Fel Gwenda Davies, Capel Salem, mae llawer o Gymry Caerdydd yn ei hadnabod hi. Roedd hi yn un o'r deunaw o blant bach dan 8 oed a ddechreuodd yn Ysgol Gymraeg Caerdydd yn 1949 pan oedd yr ysgol honno yn Sloper Road, Grangetown, cyn symud i'r Bryntaf cyntaf hyd yn oed. Mae'n fam i dri o blant erbyn hyn ac yn briod â Dennis Ffransis sy'n gweithio i'r Awdurdod Darlledu Annibynnol, yn ysgrifennydd Cylch Cinio Cymry Caerdydd ac yn weithgar iawn yng Nghapel Salem.

* * *

Croeso nôl i Gaerdydd i un arall o gyn-ddisgyblion cyntaf yr Ysgol Gymraeg. Erbyn hyn mae Lona Roberts (née Daniel) wedi'i throi hi tua thref ar ôl deng mlynedd yn Wrecsam. Mae Huw, ei gŵr wedi derbyn Swydd Pennaeth yr Adran Ffiseg yn Ysgol Gyfun Llanhari a mae'r teulu'n ymgartrefu bellach yn 'Pengwern Newydd', 75 Ffordd yr Orsaf, Llanisien. Mae tri o blant ganddyn nhw, Dafydd, Mared, a Gwerfyl, y tri yn Ysgol Bryntaf ac wrth eu bodd. Cofier hefyd bod "y teulu" yn cynnwys Mrs Daniel, mam Lona, a gweddw Gwyn a wnaeth y fath waith amhrisiadwy ym myd addysg — yr Ysgolion Cymraeg ac U.C.A.C. Croeso arbennig iddi hithau.

* * *

Newyddion ardderchog i nifer fawr ohonom oedd sylweddoli bod Cynthia Jeffreys, wedi dychwelyd i Gaerdydd ar ôl rhai blynyddoedd yn Singapôr. Mae'i gŵr hi yn Texas erbyn hyn a bydd Cynthia a'i mab bach James yn gorfoleddu pan ddaw yn ôl yn ei dro i'w cartref yn Heol Dan y Coed, Cyncoed.

Cawsom glywed tad Cynthia ar y radio dro'n ôl yn sgwrsio â Hywel Gwynfryn ar "Helo Bobol" ar Hanes Morwrol Caerdydd. Mae llyfr ganddo ar y pwnc wedi ymddangos o'r wasg erbyn hyn ac er mai yn Saesneg y mae'r llyfr mae'n sicr o fod o ddiddordeb inni, drigolion Caerdydd.

* * *

Mae Ysgol Gerddoriaeth arall wedi'i hagor, y tro yma 'Ysgol Gerdd y Crystals'. Yr athrawes ddawnus yw Mrs D. T. Guy a mae pawb yng Nghaerdydd yn nabod y teulu cerddorol hwn. Mae Michael Jeffreys, brawd Cynthia, newydd lwyddo yn arholiad safon 5 ar ôl dwy flynedd o ddysgu'n unig ac mae aml i hen deulu o Gaerdydd yn barod yn mynychu Ysgol Mrs Guy — Meinwen Ruddock ac Eleri Davies, merch Caryl Gibbs, gynt, i enwi ond dwy. Croeso cynnes i'r ysgol newydd a phob hwyl i'r disgyblion.

# Dychweledigion Cyncoed

*Tybed faint ohonom sy'n sylweddoli fod cymdeithas symudol o bobl yn gyson yn ein plith, sef y myfyrwyr, rhai sy'n dod ac yn mynd, ac yn cael golwg lled wahanol i ni ar fywyd dinas? Gofynnodd Y Dinesydd i griw ohonynt gynnig argraffiadau ac i un yn arbennig, Delyth Williams, o Gaerfyrddin, sy'n gorffen tymor o dair blynedd yng Nghyncoed, eu croniclo. Dyma'i sylwadau.*

**Wel, rydw i'n un o'r bobol hynny sy'n darllen fy horosgop — am dipyn o hwyl, heb ddisgwyl i'r rhagolygol ddod yn wir. Syndod i mi, er hynny, beth amser yn ôl, oedd darllen fod "newid awyrgylch" i fod yn fy mywyd o ganol Mehefin ymlaen — digon gwir, a'r newid awyrgych yma fydd gadael Caerdydd a dychwelyd i Ddyfed.**

Digon naturiol ar ôl tair blynedd mewn dinas fel hon yw edrych yn ôl a chasglu'r argraffiadau y mae Caerdydd wedi eu gadael arnom ni, fyfyrwyr o wahanol rannau o Gymru. A dyma oedd trafodaeth rhai ohonom uwch paned o goffi yn lolfa'r coleg yn ddiweddar. "Beth wyt ti'n feddwl o Gaerdydd?", oedd fy ngwestiwn i Helen o Lanelli.

"Mae Caerdydd wedi bod yn lle diddorol i dreulio bywyd coleg yma. Mae digon o gyfleusterau at ddiddordeb pawb, yn enwedig y rhai hynny ohonom sydd wedi bod o ardaloedd cefn gwlad sy'n brin o fywyd diwylliannol, e.e. theatrau, sinemau, dawnsfeydd, tai bwyta traddodiadol a thramor. Ond rhaid i mi gyfaddef, er bod sinemau moethus yn y dref, i'r Globe yn Heol Albany yr af fi a'm ffrindiau. Pa eisiau talu dwbwl y pris i weld yr un ffilm i lawr yn y dre, lle y mae llai o awyrgylch gyfeillgar beth bynnag? Felly, i mi, cyfleusterau'r ddinas yw ei phrif fantais."

Ac roedd Sheila o Dre-lech yn cytuno: "Ydy", meddai hi, "Rwy'n credu bod Caerdydd yn lle delfrydol i fyfyriwr, tra mae sierwydd cymdeithas coleg yn gefn. Rwy'n teimlo y gall Caerdydd fod yn lle unig iawn heb y cefndir hwnnw gan mai lle amhersonol ydyw. Wrth 'amhersonol' teimlaf fod Cymdeithas y 'Rhywun' yn gryf. I'r gweddill ohonom nad ydym yn 'rhywun', digon hawdd yw boddi mewn cymdeithas nad ydym yn rhan ohoni."

Roedd un arall o'r myfyrwyr (nad ydyw am gael ei henwi!) yn cytuno â Sheila. Credai fod Cymdeithas Capel y Crwys mor wahanol i gymdeithas capel y wlad. Cyfaddefai fod pawb yn gyfeillgar ac yn serchog ond amheuai braidd a oes gwir ddiddordeb gan y gynulleidfa yn y myfyrwyr — neu ai o ddyletswydd yn unig y daw'r wên a'r sgwrs bwrpasol.

Roeddem yn cytuno, er hynny, fod yn rhaid i ni dderbyn fod Cymdeithas Capel yn y ddinas yn gweld newid o hyd — pobl yn dod a phobl yn mynd, yn wahanol i bobl y wlad lle y mae pawb fwy neu lai wedi cael eu codi gyda'i gilydd, wedi cyd-fyw, cyd-ddioddef a chydlawenhau mewn cymdeithas glos.

Ond beth amdanaf fi?

Yn bersonol, teimlaf hiraeth wrth adael. "Wel, wrth adael beth?", gofynnwch. Wrth adael y coleg, yn sicr. Gadael ffrindiau sy wedi ffurfio'n deulu clos, cyfeillgar yn ystod y tair blynedd. Gadael Caerdydd? Ie, i ryw raddau, ond i mi lle i fynd a dod ohono yw Caerdydd. Yn sicr, fe ddof yn ôl am dro fel ymwelydd, er mai "ymwelydd" rydw i wedi bod yma yn ystod y tair blynedd ddiwethaf.

Yn anffodus, ni ddywedodd yr horosgop ai newid er gwell oedd yr awyrgylch hwn i fod. Pwy a ŵyr? Efallai nawr, tra oeddwn yn fyfyriwr, fy mod wedi meddwl fel myfyriwr, ond wedi i mi dyfu'n "ddyn" pwy a ŵyr na roddaf heibio y meddyliau "myfyriol" hyn ac yr edrychaf yn ôl ar Gaerdydd gydag edmygedd parchus. Ond heddiw, yng ngeiriau Caradog Pritchard, "Codaf fy hwyl i'r gwynt yfory," ac "ynghlo yn fy nghwch mae dirgelwch fy hynt."

# UN WLPAN

Dim ond un cwrs Wlpan a gynhelir y flwyddyn nesaf, yn lle'r ddau arferol. Cynhaliwyd y cyfweliadau ar gyfer y cwrs yma eisioes, ond os gwyddoch am rywun sydd â didd-ordeb mewn dysgu Cymraeg ar ddwy noson yr wythnos, yna cynhelir y noson gofrestru ar nos Fercher, Medi 12 am 7.00 o'r gloch.

# NEWYDDION CWM RHYMNI

**Diwedd Mawrth eleni, daeth cyfrol ddiddorol o wasg Stewart Williams, Y Barri. Ei henw ydy "Old Caerphilly and District in Photographs", gan Howard C. Jones. Mae'r awdur, sy'n frodor o Aberystwyth, yn newyddiadurwyr gyda'r Western Mail ac yn byw yn Ystad Watford, Caerffili. Yn y gyfrol hardd hon ceir bron i ddau gant o hen ddarluniau gwerthfawr yn portreadu y dref a'r cylch, diwylliant y cylch, trafnidiaeth, addysg a chrefydd, diwydiant a masnach, gwasanaethau cyhoedd-us, tai diddorol, cymeriadau ac wrth gwrs y castell.**

Ysgrifennwyd y cyflwyniad gan un o fechgyn enwog Cwm yr Aber, Syr Trefor Evans, C.B.E. Yn naturiol ceir ynddi luniau am drychineb 14 Hydref, 1913, Senghennydd, ac maent, ynogystal â lluniau 5, 18, 26, 26, 50, 51, 57, 125, 134, 155, 157, 167, 178 a 190, ymysg y rhai mwya diddorol yn y gyfrol. Ond yr un mwya diddorol i mi yw rhif 101! Bu'r awdur yn trafod y gyfrol gyda phlant hyna Ysgol Gymraeg Caerffili, a'r cwestiwn caletaf a gafodd oedd yr un yn holi pam mai ffurf Seisneg enw'r dref a ddefnyddiwyd.

Mae'n siwr fod llawer wedi gweld ar y teledu John Taylor, cyn-chwaraewr rygbi y Cymry yn Llundain, yn rhedeg o ystafell newid rhyw glwb rygbi, i fyny rhiw, heibio i ddwy siop a chapel, cicio pwced glanhawr ffenestri dros y tai cyn mwynhau ei beint o gwrw. Wel, Bargod ydy'r dre yn yr hysbyseb! Ar gornel Wood St. a Ruth St., mae'n bwrw i'r siopwr, yn Heolddu Road mae Beehive Stores a hefyd Elim, canolfan y Pentecostiaid lleol.

Gan fy mod wedi son am ddwy brif dre'r cwm, priodol ydy son am y dre sy'n gwarchod pen ychaf y Cwm, sef Rhymni. Yno o Ddydd Mercher, 11 Gorffennaf hyd Dydd Sul, 15 Gorfennaf cynhelir Ail Eisteddfod Gadeiriol Cwm Rhymni. Yn ôl yr ysgrifennydd, Y Cynghorydd Huw Davies, Y.H., cadeirydd Cyngor Cwm Rhymni am eleni, bydd yr eisteddfod yn hollol ddwyieithog a bydd cyfanswm o £4000 i'w rannu fel gwobrau.

Nos Sadwrn Mai 12 yn y Ganolfan Chwaraeon yng Nghaerffili cynhaliodd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Ifor Bach, Senghennydd gyngerdd Mawreddog. Hogiau'r Wyddfa oedd yn rhannu'r llwyfan â phlant yr ysgol, ac anodd oedd gwybod pwy oedd yn mwynhau eu hunain fwyaf oherwydd roedd pawb yn canu o'i hochr hi. Prif bwrpas y cyngerdd, a ohirwyd o Ionawr eleni oherwydd y tywydd mawr, oedd dathlu'r ffaith fod Addysg Ddwyieithog yn dod i'w hoed yng ngwaelod y Cwm. Meddai'r rhaglen: "Arwyddair ein hysgol yw 'Ymdrech a lwydda', a llwyddiant fu ein hanes yn ystod y deunaw mlynedd. Agorwyd yr ysgol ym mis Ionawr 1961 gydag un-ar-ddeg o blant ac erbyn hyn mae dros naw cant o blant yn cael addysg ddwyieithog yn ein hysgolion cynradd yng Nghwm Rhymni."

Llywyddion y noson oedd y Cynghorydd a Mrs H.P. Richards, Caerffili. Yn ei haraith fe ddiolchodd Mrs Richards am weledigaeth rhieni yr un-ar-ddeg a yrrodd eu plant un bore Mawrth yn Ionawr 1961 i Ysgol Parc-y-Felin, Caerffili, i ddechrau'r ysgol ddwyieithog gynta yng ngwaelod y Cwm. Ond gosod sialens i rieni Cwm yr Aber a wnaeth y Cynghorydd H.P. Richards. Yn sgil llawenhau am lwyddiant yr ysgol ddyddiol, tynnodd sylw at y ffaith fod tri chapel Cymraeg wedu cau yn y Cwm. Wrth gloi ei araith gofynnodd, "Ydy hi'n bosib i chi rieni godi a chadw un Ysgol Sul Gymraeg?"


## YN EISIAU

Mis Medi, Ysgrifenyddes rhan-amser i weithio deuddeg awr yr wythnos

Manylion Pellach oddiwrth:- Canolfan Yr Urdd, Heol Conway, Treganna, CAERDYDD.

Ffôn 36201

# O'r Ganolfan

### Nofio Nawdd

Gyda'r arian yn dal i ddod i mewn, mae'n debyg fod y nofio nawdd eleni wedi bod yn llwyddiant mawr. Cynhaliwyd y nofio yn y ganolfan chwaraeon genedlaethol, ar nos Sadwrn, Mai 19, ac am yr awr gyntaf, nofiodd dros gant o blant yn ôl a mlaen er mwyn codi arian i'r Urdd. Tro y rhai hŷn oedd hi am yr ail awr, a dyma'r tro cyntaf i ni gael criw more dda o bobol hŷn. Rhennir yr arian rhwyng y Ganolfan, a chynllun punt y pen yr Urdd. Diolch o galon i Mr. Carwyn Davies am drefnu unwaith eto, i'r bobl a gynorthwyodd wrth ochr y pwll, ac yn bennaf i bawb a fentrodd i'r dŵr.

### Eisteddfod

Ar un ochr, methiant oedd Eisteddfod Maesteg i'r Ganolfan, gan fod y tywydd garw yn llythrennol wedi golchi'r maes parcio i ffwrdd ar y dydd Mercher, a gwaith caled iawn oedd gwthio pob car allan bob yn un, a'r glaw trwm yn dal i ddisgyn.

Ond o'r ochr arall, gellir dweud mai llwyddiant oedd yr Eisteddfod gydag enw Aelwyd Caerdydd yn amlwg iawn ar y dydd Sadwrn, gyda dwy wobr gyntaf a thair ail wobr yn dod yn ôl i'r Ganolfan. Ar ben hyn enillwyd tarian yr Aelwydydd am y marciau uchaf am waith llwyfan. Llongyfarchiadau i'r côr ac yn enwedig i'w harweinydd newydd Mr. Euros Evans.

Dyma'r canlyniadau:

Gwobr gyntaf:
Côr 10 — 20 llais
Côr 20 — 40 llais
Ail wobr:
Côr meibion
Côr merched
Cyflwyniad cerddorol
Cwmni dawnsio gwerin
Tarian yr Aelwydydd i'r aelwyd uchaf ei phwyntiau am waith llwyfan.

### Atgyweirio

Mae'r gwaith blynyddol o atgyweirio'r ganolfan yn mynd ymlaen gyda rhai cannoedd o bunnoedd yn cael eu gwario ar y neuadd fawr. Mae llawer iawn o waith paentio i'w wneud a byddwn yn ddiolchgar o glywed gan unrhyw un â diddordeb mewn cynorthwyo. Gellir arbed cryn dipyn o arian trwy wneud y gwaith yma ein hunain.

### Ysgrifenyddes

Fel y gwelwch mewn man arall yn y Dinesydd, bydd angen ysgrifenyddes ran amser yn y ganolfan. Mae hyn yn codi trwy ymddiswyddiad Mrs Esther Humphreys sydd wedi cael swydd dysgu llawn amser yn ysgol Radur. Cymerwn y cyfle i ddiolch yn fawr i Esther am ei gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac i ddymuno'n dda iddi yn ei swydd newydd.

### Aelwyd

Cafodd tîm peldroed yr Aelwyd dymor buddiol iawn, gan gyrraedd gêm derfynol cwpan Pantyfedwen yn erbyn aelwyd Bethesda. Cafwyd gêm gyffrous iawn er bod y tywydd yn ddychrynllyd o ddrwg, ac er mai colli a wnaeth yr Aelwyd ar y diwedd, o dair gôl i un, mwynhaodd pawb y gêm a'r trip, a daeth cwpan Glan-Llyn i Gaerdydd am y tro cyntaf erioed. Gobeithiwn mai cwpan Pantyfedwen fydd yma y flwyddyn nesaf.

### Adrannau

Gobeithiwn ail-gychwyn adran Llandaf yma yn y Ganolfan o fis Medi ymlaen, a'r bwriad yw galw cyfarfod o rieni y plant sydd yn mynd i ysgol Bryntaf a sydd yn byw yng nghyffiniau Llandaf. Os nad oes plant gennych ym Mryntaf, ond â diddordeb mewn cynorthwyo gyda'r adran, cysylltwch ar unwaith ag Alan Gwynant yma yn y ganolfan.

Mae'n bosib hefyd fod galw am adrannau mewn mannau eraill o Gaerdydd, a byddwn yn falch iawn o glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn sefydlu adran bentref yng Nghaerdydd.

### Uwch Adran

**Y Groes Wen**

Daeth y grwp hwn at ei gilydd am y tro cyntaf ar Ŵyl Ddewi eleni. Yr oedd iddo bedwar aelod i ddechrau, sef Huw Pritchard (llais, offer taro), Ian Welch (drymiau ac offer taro), John Wyn Williams (gitâr a llais) a Huw Eurig (gitâr) ond ymhen ychydig ymunodd Ifan Saer (gitâr fâs).

O gofio mai bechgyn 13-14 oed ydynt ac mai yn ddiweddar iawn y daethant at ei gilydd, mae'r grwp yn un da iawn.

Nos Lun, Ebrill yr ail, roedd Canolfan yr Urdd, Heol Conwy yn byrlymu gan eu swn byddarol. Cafwyd ganddynt ganeuon megis "Olwynion" (sy'n debyg iawn i "Olwen" — Seindorf gyda llaw), "Diwedd y Byd", "Trydan Byw", "Mynd", "Bywyd", "Testiwb", "Prynu Gitâr"," Carped ar y Llawr" a "Goleuadau'r Ddinas". Rhoesant berformiad gwefreiddiol. Efallai mai'r unig nam arno oedd fod y blaenwr (Huw Pritchard) yn mynnu dal y meic yn rhy agos at ei geg a llawer o'i eiriau yn mynd ar goll o'r herwydd. Cyfaddefodd Huw Eurig wrthyf yn ddiweddarach mai diffyg ymarfer oedd yn gyfrifol am hyn. Yn ddiau dônt yn well erbyn eu cyngerdd nesaf. Dalient ati!




# LLWYDDIANT LLANHARI

**Bu nifer helaeth o ddisgyblion Ysgol Gyfun Llanhari 'n amlwg ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Tir Iarll, Ogwr dros y Sulgwyn. Cyflwynwyd cwpan i'r ysgol am ennill y cyfanswm uchaf o farciau yn y cystadlaethau llwyfan o dan bymtheg oed.**

Ymhlith y gwobrau cerddorol a enillwyd gan gystadleuwyr o dan bymtheg oed oedd yr unawd i ferched (gwobr gyntaf), yr unawd llinynnol (ail), yr unawd telyn (ail), y parti merched (ail) a'r côr (ail).

Hefyd o dan bymtheg oed, bu parti cydadrodd Llanhari'n llwyddiannus iawn (cyntaf) a dyfarnwyd yr ail wobr yn y gystadleuaeth adrodd unigol i ddisgybl o'r ysgol.

Enillodd cwmni drama'r ysgol glod arbennig am eu perfformiad o'r ddrama wreiddiol "Pwy Wyt Ti?", a lwyfannwyd yn y gystadleuaeth ddrama o dan bymtheg oed. Dyfarnwyd iddynt y wobr gyntaf a Chwpan Mair Gwyn Jones.

Enillwyd ail wobr y gystadleuaeth Grŵp Cân Ysgafn Fodern o dan bump ar hugain oed gan "Caspach" o Lanhari, a thrydedd wobr y gystadleuaeth, Ymgom o dan bump ar hugain, gan ddisgyblion o'r ysgol. Mentrodd un cystadleuydd ifanc ar y Siarad Cyhoeddus unigol, hefyd o dan bump ar hugain oed, ac enillodd y drydedd wobr. Ymysg y cystadlaethau cartref daeth gwobr gyntaf a thrydedd wobr i Lanhari am ryddiaith a gyfansoddwyd gan aelodau o'r trydydd dosbarth, a hefyd trydedd wobr am ffotograffiaeth.

Ar wahan i'r cystadlu, gwnaethpwyd cyfraniad teilwng iawn i ddefod y fedal lenyddiaeth brynhawn Sadwrn gan barti cerdd dant Llanhari a'r telynorion. Cyflawnwyd rhan sylweddol hefyd ym Mhasiant yr Eisteddfod gan gôr o'r ysgol isaf, ac actorion o'r ysgol ganol a'r isaf, ac enillodd eu hymdrechion glod mawr.

Gellid adrodd felly i'r ysgol gyfrannu'n helaeth tuag at weithgareddau Eisteddfod yr Urdd ym Maesteg, ardal y mae'n tynnu llawer o'i disgyblion ohoni erbyn hyn, ac i'r disgyblion hwythau ymelwa'n sylweddol o'u hymweliad a'r Brifwyl.

# Prifwyl Tir Iarll 1979

gan Shân Emlyn

Profiad i godi calon unrhyw Gymro Cymraeg oedd cael bod yn Eisteddfod yr Urdd ym Maesteg eleni. Rhyfeddaf bob blwyddyn sut y mae modd i safon y cystadlu godi'n gyson. Credaf imi wrando ar y mwyafrif o'r cystadlaethau, ac ni chlywais yr un eitem sâl gydol yr wythnos.

Dydd Mercher

Siomedig iawn oedd y tywydd. Ddydd Mercher cawsom law a llaid di-baid, a chlywais un yn awgrymu hwyrach bod y Bod Mawr yn dial arnom am fod mor llugoer a diweledig dros y Refferendwm! Pob clod i'r athrawon a'r rhieni brwdfrydig a lwyddodd, er gwaetha'r tywydd, i fod yn siriol ac i gael plant glân a thaclus ar y llwyfan. Roedd pob plentyn â'i wallt yn daclus a'i socs gwyn yn deilwng o "hysbys" unrhyw bowdr golchi. Tybed a fyddai'n syniad i'r Urdd ofyn i'r siopau mawr, sy'n elwa o werthiant yr holl socs gwyn, am gyfraniad i goffrau'r Wyl - neu efallai fynd ati i gynhyrchu socs gwyn eu hunain!

Iechyd calon oedd gweld brwdfrydedd pawb, yn blant ac athrawon, a'r dyfeisgarwch a'r dychymyg mewn cystadleuaeth fel y gân actol. Cawsom wledd i'r glust a'r llygaid gan y tri pharti a gwefr arbennig mai 'i blant ail iaith Heol y Celyn, Pontypridd, yr aeth y wobr gynta, hwy hefyd a gipiodd y wobr am barti dawns o dan 9 oed, o dan 12 oed ynghyd ag ennill cystadleuaeth y tîm gymnasteg. Llongyfarchiadau i lwyddiant a dycnwch Heol y Celyn — dyma enghraifft o beth sy'n bosib ond cael tîm o athrawon brwd frydig a phrifathro cefnogol. Dalier ati Heol y Celyn! Diddorol yw sylwi mai i Heol y Celyn, hefyd — ac am y pumed tro mewn chwe blynedd — ac i Ysgol Gyfun Llanhari yr aeth prif dariannau'r Wyl ddydd Mercher. Dyma ffrwyth y deffroad a'r gweithgarwch sydd yn y gornel Seisnig yma o Gymru.

Dydd Iau

Nid oedd y tywydd cynddrwg ddydd Iau, dim ond bod yn rhaid bod yn ofalus i osgoi'r mwd dyfnaf wrth fynd o gwmpas y maes. Cyn mynd i'r maes mae'n werth rhoi tro i wir faes y gâd — sef i'r gwahanol ganolfannau lle cynhelir y rhagbrofion. Yma, yn fwy felly nag yn y brif babell, y mae rhywun yn gallu synhwyro'r brwdfrydedd a'r tensiynau. Gwelais gannoedd o blant yn gorfod bod o gwmpas eu pethe yn canu, adrodd, chwarae offeryn a dawnsio, a cheisio cyflwyno a chreu awyrgylch ar awr annaearol fel wyth o'r gloch y bore!

Ddydd Iau, eto, fe'm synnwyd gan safon y cystadlu a'm gwnaeth ymwybodol iawn o'r cynnydd sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd. Trueni na allem orfodi rhai o'n haelodau seneddol i eisteddfod yn y babell am ddiwrnod cyfan er mwyn iddynt gael amgyffred cyfoeth ein diwylliant, a gweld pam y mae rhaid iddo fyw. Mae safon canu cerdd dant wedi codi'n sylweddol a'r gosodiadau wedi dod yn fwy mentrus a cherddorol. Felly hefyd safon y cyfeilio— telynau mewn tiwn a thelynorion sicr a chadarn sy'n siwr o ennyn hyder yn y cystadleuwyr. Cofiaf adeg pan y byddai sôn am unrhyw gystadleuaeth offerynnol yn arwydd i lawer fynd allan o'r babell i chwilio am baned. Nid felly erbyn hyn. Mae techneg a medr y plant yn holl gystadlaethau offerynnol yr Eisteddfod yn rhywbeth i ryfeddu ato. Llongyfarchiadau i Elenid Owen, Bryntaf, ar ennill cystadleuaeth canu'r ffidil o dan 15 oed.

Nid pawb sydd â'r ddawn i gystadlu yng nghystadlaethau traddodiadol yr Eisteddfod, ond mae gan yr Urdd rywbeth i'w gynnig i bawb. Dydd Iau cafwyd cystadlaethau gymnasteg, pêl rwyd a rygbi saith bob ochor. Pawb at y peth y bo - ni fum yn gwylio'r gornestau hyn ond cefnogaf ymdrech yr Urdd i gael rhywbeth at ddant pawb.

Dydd Gwener

Gwenodd yr haul ar yr Ŵyl ddydd Gwener a dyma sylweddoli am y tro cyntaf bod maes yr Ŵyl mewn llecyn hardd a bryniau glas o'i gwmpas. Gosodwyd safon anhygoel o uchel yng nghystadleuaeth gynta'r dydd pan gipiodd John Jones o'r Drewnewydd y wobr gyntaf am ganu'r piano efo cant o farciau. Er gwyched ei berfformiad, tybed na fyddai naw deg naw wedi bod yn farc teilwng? A oes modd cyrraedd perffeithrwydd? Wn i ddim! Cefais flas arbennig ar yr unawd o 15 i 19 oed — tair cantores ardderchog, lleisiau godidog a thechneg aeddfed dros ben. Gallwn sôn am sawl cystadleuaeth ond gwell ymatal. Pob clod i Mererid Davies am ddod yn drydedd yng nghystadleuaeth siarad cyhoeddus yn bymtheg oed, a'r gystadleuaeth yn agored hyd at 25 oed. Llongyfarchiadau hefyd i Huw Llewellyn ar gipio'r wobr yng nghystadleuaeth offerynnau pres ac i Mrs Lili Richards am ei chefnogaeth a'i chymorth i ddisgyblion Rhydfelen bob amser.

Dydd Sadwrn

Ar ôl glaw dychrynllyd, mwd du a heulwen crasboeth, diwrnod y gwynt mawr oedd hi ddydd Sadwrn. Roedd eistedd yn y babell yn brofiad brawychus a'r plant yn gorfod cystadlu â swn canfas yn fflapian a goleuadau'n clecian a griddfan ar wifrennau bregus yr olwg. Bu raid gwagio tair rhes flaen y babell rhag ofn i'r holl oleuadau ddisgyn. Ar wahan i'r problemau yma cafwyd diwrnod hwyliog o gystadlu brwd, a braf oedd gweld a chlywed cymaint o waith da, a chynifer o aelwydydd yn ymgiprys â'i gilydd. Gallasai'r Urdd yn hawdd ofyn i Laura Ashley am gyfraniad tuag at yr Ŵyl; fe welwyd milltiroedd o'i defnydd ar y llwyfan ddydd Sadwrn!

Y Seremoniau, Y Stiwdio, a'r Babell

Nid wyf wedi sôn am sermoniau'r Eisteddfod, y Stiwdio Gerdd oedd yn arbrawf llwyddiannus, nac am Babell Gelf a Chrefft yr Eisteddfod. Tybed a fyddai'n syniad i'r Urdd gael pabell Lên gan mai ychydig o sylw a gaiff buddugwyr yr adran hon ar wahan i weld eu cynnyrch yn y cyfansoddiadau. Diddorol fyddai arbrofi trwy gael seiadau i'r plant yng nghwmni'r beirniaid. Mae gweld tô ifanc o lenorion, dramodwyr a beirdd yn dod i'r brig yn wefr arbennig ac roedd atal y goron ddydd Gwener yn cadarnhau mai dim ond teilyngdod a gydnabyddir yng Ngŵyl fawr yr Urdd.

D'alla'i ddim dweud bod y seremoniau fel ag y maent yn taro deuddeg bob tro. Siomedig iawn oedd seremoni agor yr Ŵyl; i mi y fwyaf llwyddiannus oedd seremoni'r Fedal Ryddiaith ddydd Sadwrn. Dyma i mi oedd yn cloi awr fawr yr wythnos. Cododd anerchiad a dull heintus Prys Edwards o siarad frwdfrydedd y gynulleidfa ac yna'n syth cawsom feirniadaeth wych Dr John Gwilym Jones a deall bod y saith, a thair o'r rheiny o Rydfelen, wedi codi i dir uchel iawn a'r oll yn deilwng o glod arbennig. Hawdd iawn ar funudau fel hyn yw anghofio'n gofid o fod yn lleiafrif bach sy'n gorfod brwydro'n barhaus am degwch i'n hiaith a'n diwylliant. Llongyfarchiadau hefyd i Gôr Cerdd Dant a Chôr Telynau Llanhari, o dan gyfarwyddyd Miss Gillian Green, am ychwanegu at swyn ac urddas yn seremoni hon. Carwn hefyd dynnu sylw darllenwyr y Dinesydd at y ganmoliaeth a gafodd Nicolas Gardiner o Rydfelen yng nghystadleuaeth y Fedal Ddrama. Daw Nicolas ô gefndir di-Gymraeg ac o'r herwydd mae ei gamp yn fwy. Dalier ati Nicolas.

Nid wyf chwaith wedi sôn am weithgareddau'r nos - yn basiant nas gwelais, yn ddrama nas gwelais ac, am reswm digon amlwg, y disgo nas mynychais! Llongyfarchiadau i Ysgol Llanhari ar ennill cystadleuaeth y Ddrama o dan 15 oed nos Fercher ac i Rhiannon Rees am sgwennu'r ddrama a'i chynhyrchu. Rhydfeddaf at ei hegni a'r modd y llwydda i ysbrydoli'r plant.

Diwedd yr Ŵyl

Dyma fi'n dod at ddiwedd yr Eisteddfod. Byddaf bob amser yn teimlo'n chwith o weld pnawn Sadwrn Steddfod yr Urdd yn dod i ben a gwybod bod rhaid aros blwyddyn arall cyn cael chwistrelliad tebyg o ddiwylliant. Balchder i ni bobol Caerdydd oedd gweld Euros Evans yn arwain dau gôr Aelwyd Caerdydd i fuddugoliaeth yn nwy gystadleuaeth ola'r dydd. O sôn am Aelwyd Caerdydd, mae cydymdeimlad mwya'r wythnos yn mynd i dîm brwd a pharod Aelwyd Caerdydd a ymgymerodd â baich trwm y meysydd parcio. Bu'n wythnos drychinebus iddynt o ran tywydd a'r safle, mawnoglyd ar ei orau, a neilltuwyd fel maes parcio. Tybed a fyddai'n syniad cael cyngerdd o holl fuddugwyr bro'r Dinesydd i ni gael cyfle i'w hail-glywed ac i ddigolledu rhywfaint ar Aelwyd Caerdydd. Pwy ŵyr na ellid perswadio cymeriad mwya hoffus Cymru i ddod yno - neb llai, neu a ddylwn ddweud, neb mwy na Mistar Urdd ei hyn! Dyma restr gyflawn o enillwyr bro'r Dinesydd ym Maesteg:




*Llun y Western Mail*

**Enillwyr Tarian yr Ysgolion Cynradd — am y bumed waith**

| | | |
|---|---|---|
| Barddoniaeth | | |
| O dan 8 | 2 | Iolo Davies, Bryntaf |
| | 3 | Catherine Owens, Penarth |
| 8-10 | 3 | Melanie Williams, Bryntaf |
| 16-20 | 2 | Marian Lewis, Rhydfelen |
| | | Menna Thomas, Rhydfelen gynt, ac Elisabeth Davies, Rhydfelen |
| 16-20 | 3 | Elisabeth Davies, Rhydfelen |
| Dychangerdd 14-25 oed | 2 | Elisabeth Davies, Rhydfelen |
| Cystadleuaeth y Gadair | 3 | Marian Lewis, Rhydfelen |
| Rhyddiaith o dan 8 | 1 | Rhian Coles, Y Barri |
| | 3 | Anna Williams, Y Barri. |
| Blwyddyn 2a3 Ysgolion Uwchradd | 1 | Sioned Geraint, Llanhari |
| | 3 | Betsan Powys, Llanhari |
| Ysgrif 14-25 oed | | Rhys Powys, Rhydfelen |
| Cywaith. Blwyddyn 1-3 | 2 | Catherine Stanson a Ceilys Rees, Rhydfelen. |
| Blwyddyn 4-6 | 1 a 2 | Ysgol Gyfun Rhydfelen |
| Llunio Gêm, Blwyddyn 2 a 3 | 3 | Sian Pritchard, Ysgol Gyfun Coed Duon, Risca, Gwent. |
| Trosi Drama, Blwyddyn 4-6 | 3 | Geithin S. Rhys, Rhydfelen |
| Cystadleuaeth y Fedal Ddrama | 3 | Nicolas Gardiner, Rhydfelen |
| Cywaith "Coed" Blwyddyn 1 a 2 | 3 | Rebecca Shakespear, Rhydfelen |
| | 3 | Moelwyn Clive Davies, Rhydfelen |
| Cylch Trydanol, Blwyddyn 1 a 2 | 3 | Ysgol Glantaf |
| Ecoleg | 2 | Adran Ysgol Esgob Llandaf |
| Traethawd, Dosbarth 6 | 3 | Gethin Rhys, Rhydfelen |
| Paentio 10-12 | 2 | Jason Kemp, Creigiau |
| | 3 | Dafydd Hunt, Casnewydd |
| Dosbarth 1 a 2 | 2 | Ian Speake, Glantaf |
| | 3 | Katherine Phillips, Llantarnam, Risca |
| Dosbarth 5 a 6 | 3 | Caroline Owen, Ysgol Twmpath, Risca |

| | | |
|---|---|---|
| Llythrennu | | |
| O dan 8 oed | 2 | Jill Rowlands, Gartholwg, Llantrisant |
| | 3 | Theresa Gorman, Ysgol Mihangel Sant, Pontypridd |
| 8-10 oed | 2 | Mari Griffith, Ysgol Gymraeg Casnewydd |
| | 3 | Lloyd Powell, Ysgol Bryntaf |
| Dosbarth 3 a 4 | 3 | Martin Jones, Ysgol Rhydfelen |
| Dosbarth 5 a 6 | 1 | Bernadette Harris, Ysgol Rhydfelen |
| Cywaith | | |
| 8-10 oed | 2 | Ysgol Ifor Bach, Senghennydd |
| 10-12 oed | 3 | Ysgol Parc Jenner, y Barri |
| 10-12 oed | 2 | Ysgol Gynradd Y Bontfaen |
| | 3 | Ysgol Gynradd Mihangel Sant, Pontypridd |
| Modelau 8-10 | 1 | Ysgol Bryntaf |
| Ffotografiaeth | | |
| O dan 12 oed | 2 | Mari Evans, Ysgol Gynradd Y Bontfaen |
| Dosbarth 3 a 4 | 2 | Claire Evans, Coed Duon, Gwent |
| | 3 | Beth Griffiths, Llanhari |
| Dosbarth 5 a 6 | 1 | Sean Duggan, Coed Duon, Gwent |
| | 2 | Barry Jeavons, Ysgol Gyfun y Bechgyn, y Barri |
| Cerfluniau | | |
| O dan 8 oed | 1 | Stephen Blundell, Bryntaf |
| 10-12 oed | 1 | Nigel Morgan, Ysgol Gymraeg Aberdâr |
| Dosbarth 3 a 4 | 2 | Roy Watkins, ysgol Twmpath, Risca, Gwent |
| Pypedau | | |
| 10-12 oed | 2 | Lisa Coombs, Ysgol Gwaelod y Garth |
| | 3 | Susan Williams, Ysgol Y Bontfaen |
| Dosbarth 1 a 2 | 1 | Lowri Stephens, Ysgol Glantaf |

# Eisteddfod Maesteg (parhad)

| | | |
|---|---|---|
| **Brodwaith** | | |
| 8-10 oed | 3 | Sioned Mererid Guy, Bryntaf |
| 10-12 oed | 1 | Suzanne Buckthought, Ysgol Gynradd Rhiwbina |
| **Macrame** | | |
| Dosbarth 1 a 2 | 2 | Amanda Southall, Rhydfelen |
| Dosbarth 5 a 6 | 3 | Bethan Haf Thomas, Rhydfelen |
| **Gwnio** | | |
| Dosbarth 1 a 2 | 1 | Alison Jones, Rhydfelen |
| | 2 | Elaine Morse, Glantaf |
| **Batik** | | |
| Dosbarth 1, 2 a 3 | 2 | Rhodri Thomas, Glantaf |
| Dosbarth 4, 5 a 6 | 1 | Robert Wyn Evans, Ysgol Gyfun y Bechgyn, Y Barri |
| **Gwnio** | | |
| Dosbarth 1 a 2 | 3 | Ysgol Gyfun Rhydfelen |
| Dosbarth 5 a 6 | 2 | Ysgol Gyfun Rhydfelen |
| Adrodd o dan 9 | 3 | Rhian Griffiths, Pontypridd |
| Dysgwyr 9-12 | 3 | Nicola Pierce, Pontypridd |
| Gymnasteg Unigol | 1 | Julia Surtees, Risca |
| | 3 | Kirsty Scull, Creigiau |
| Gymnasteg i Dîm | 1 | Heol y Celyn, Pontypridd |
| | 3 | Ysgol Sant Andrew, Risca |
| Parti Recorder dan 12 | 3 | Ysgol Gymraeg Bargoed |
| Cân Actol dan 12 | 1 | Heol y Celyn, Pontypridd |
| Adrodd i Ddysgwyr dan 12 | 3 | Heol y Celyn, Pontypridd |
| Grwp Cerddoriaeth Greadigol dan 12 | 1 | Ysgol Ifor Bach, Rhymni |
| | 2 | Ysgol Bryntaf |
| | 3 | Ysgol Gartholwg, Llantrisant |
| Parti Dawns dan 12 | 1 | Heol y Celyn Pontypridd |
| Parti Cerdd Dant dan 12 (dysgwyr) | 1 | Ysgol Gynradd Llysfaen |
| | 2 | Ysgol Penyrenglyn Rhondda |
| Côr Adran dan 12 | 2 | Ysgol Gymraeg, Penarth |
| Parti Cerdd Dant dan 12 | 2 | Ysgol Bryntaf |
| Parti dawns dan 12 | 1 | Heol y Celyn, Pontypridd |
| | 2 | Ysgol Ifor Bach, Rhymni |
| | 3 | Ysgol Lansdowne, Caerdydd |
| Côr Cerdd Dant dan 12 | 3 | Ysgol Bryntaf |
| Unawd llinynnol dan 15 | 1 | Elenid Owen, Bryntaf |
| | 2 | Huw Davies, Llanhari |
| Unawd offeryn pres dan 15 | 3 | David Mathews, Llantarnam, Gwent |
| Côr Adrodd dan 15 | 1 | Llanhari |
| Parti Cerdd Dant dan 15 | 2 | Rhydfelen |
| Unawd 12-15 oed | 1 | Catrin Jones Llanhari |
| Unawd telyn dan 15 | 2 | Betsan Powys, Adran Caerdydd |
| | 3 | Branwen Davies, Rhydfelen |
| Parti dan 15 | 2 | Ysgol Gyfun Llanhari |
| Côr Adran dan 15 | 1 | Ysgol Fitzalan, Caerdydd |
| | 2 | Ysgol Gyfun Llanhari |
| Drama dan 15 | 1 | Ysgol Gyfun Llanhari |
| Gymnasteg dan 15 | 3 | Uroosa Kabeer, Ysgol Fairwater, Risca |
| Gymnasteg Tîm dan 15 | 2 | Ysgol Twmpath, Risca |
| Pêl Rwyd | 3 | Ysgol Cilfynydd, Pontypridd |
| Offeryn Pres 15-19 oed | 1 | Huw Llewellyn, Rhydfelen |
| | 3 | Mark Thompson, Bryn Celynnog, Llanilltud Fawr |
| Drama 15-25oed | 3 | Rhydfelen |
| Unawd linynnol 15-19 | 1 | Juliet Jones, Caerffili |
| | 2 | Elin Angharad Edwards, Rhydfelen |
| Grŵp Chwythbrennau | 2 | Ysgol gyfun Treorci |
| Siarad Cyhoeddus | 3 | Mererid Davies, Llanhari |
| Dawns Werin Unigol | 3 | Sarah Williams, Brynhafren, Y Barri |
| Côr Adran | 3 | Rhydfelen |
| Gymnasteg | 3 | Donna Hook, Ysgol Fairwater, Cwmbran |
| Grŵp Cân Ysgafn | 2 | Ysgol Llanhari |
| Y Fedal Ryddiaith | | Clod uchel i;- Menna Thomas, Rhydfelen gynt; Angharad Jones, Rhydfelen; Marian Lewis, Rhydfelen |
| Deialog 14-25 oed | 3 | Llanhari |
| Parti Dawns 14-25 | 3 | Aelwyd Caerdydd |
| Parti Unsain | 2 | Aelwyd Caerdydd |
| Cyflwyniad Cerddorol | 2 | Aelwyd Caerdydd |
| Cyflwyniad Llafur | 1 | Rhydfelen |
| | 3 | Aelwyd Caerdydd |
| Côr Aelwyd 20 o leisiau | 1 | Aelwyd Caerdydd |
| Côr Aelwyd 40 o leisiau | 1 | Aelwyd Caerdydd |
| Tarian i'r Aelwyd uchaf ei marciau: | | Aelwyd Caerdydd |

## ag YR ACADEMI GYMREIG

Bydd staff yr Academi yn falch o gael croesawu ymwelwyr i'r swyddfeydd unrhyw bryd yn ystod oriau gwaith.


## SWYDDFEYDD NEWYDD

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod yr Academi Gymreig yn symud i swyddfeydd newydd ar yr ail o Orffennaf, 1979. Mae'r swyddfeydd newydd yn fwy na'r swyddfeydd presennol a bydd yno ystafell bwyllgora y gall yr aelodau ei defnyddio fel ystafell ddarllen yn ystod y dydd. Bydd yr Academi nid yn unig yn talu llai am y swyddfeydd hyn ond mae gwell cyfleusterau parcio i'w cael yn ymyl y swyddfeydd hefyd.

*Cyfeiriad y swyddfeydd newydd fydd:*

**LLAWR 4**
**ADEILAD CORY**
**HEOL BUTE**
**CAERDYDD**
**CF1 6QP**
**Ffôn: 398189**

Gellir llogi'r ystafell bwyllgora ar gyfer cyfarfodydd; codir tâl isel ar rai nad ydynt yn aelodau ond gall yr aelodau logi'r ystafell yn rhad ac am ddim. Gobeithiwn ychwanegu at Lyfrgell yr Academi er mwyn darparu ystafell ddarllen gynhwysfawr. Croeso i unrhywun, boed aelod neu beidio, gyfrannu llyfrau i'r Llyfrgell.



# COLOFN
## Shân Emlyn

**Bu blas cerddorol iawn ar yr wythnosau diwetha' 'ma i mi, ac mae hynny'n newid braidd ac yn chwa o awel iach i un sy'n poeni'n barhaus am gyflwr yr iaith un ai yma neu ym Mhatagonia bell. Bydd yn rhyddhad i ddarllenwyr y Dinesydd rwy'n siwr i weld nad wyf yn traethu'r un bregeth ag arfer yn y rhifyn hwn. Blas cerddorol, ia, ond blas cerddorol a Chymreig hefyd.**

Profiad pleserus iawn oedd gwrando ar bedair merch ifanc yng Nghystadleuaeth Canwr Ifanc Cymru eleni. Roeddwn yn llawn edmygedd o'u meistrolaeth ar dechneg a'u dehongliad o raglenni uchelgeisiol iawn. Roedd yr enillydd Penelope Walker yn sefyll allan ac fe broffwydir dyfodol disglair iawn iddi. Dewisiodd ganu "Sea Pictures" gan Elgar ac o'r frawddeg gynta teimlwn ddŵr oer yn mynd i lawr fy nghefn. Pinacl techneg dda yw gallu mwytho geiriau a blasu brawddegau cerddorol yn gelfydd gan roi'r argraff i'r gwrandawr bod y cyfan yn gwbwl ddiymdrech. Dyna a wnaeth Penelope Walker, a hithau ond yn 22 oed. Cefais sgwrs yn ddiweddarach efo un o'r beirniaid sef Syr Thomas Armstrong, cyn-brifathro'r Academi yn Llundain, a chyfle i hel atgofion am y dyddiau difyr gynt pan oedd yn brifathro ar ferch ifanc ddiniwed a dibrofiad o ben Llŷn!

Eleni mae dau gyfansoddwr Cymreig yn dathlu'u penblwydd yn 70. Y ddau yw Mansel Thomas ac Arwel Hughes. I nodi'r ddau achlysur fe drefnodd B.B.C. Cymru ddau gyngerdd o weithiau'r cyfansoddwyr. Bum yn y cyngerdd cynta sef cyngerdd Mansel Thomas ar y 14eg o Fehefin.

Dyma gyngerdd a adlewyrchodd amrywiaeth dawn y cyfansoddwr ac a bontiodd ei ddatblygiad o'i weithiau cynnar, a gyfansoddodd pan oedd yn fyfyriwr, i'w weithiau diweddara. Cefais flas arbennig ar ganu Wynford Evans o "Ganeuon Grace a Siân". Dyma gyfres o hwiangerddi wedi'u gosod yn syml a dirodres a phob un yn em fach. Gyda thechneg wych fe ganodd Wynford Evans hwy'n gelfydd, ond yn bwysicach na dim fe'u canodd hwy heb golli'r symylrwydd sy'n hanfodol i'w canu'n llwyddiannus. Trueni na fyddai mwy o ganu ar y gwaith yma er mwyn i'r tô ifanc gael dod yn gybyddus â nhw.

Hoffais drefniannau Mansel Thomas o nifer o alawon gwerin. Cafwyd eitem gan Gantorion y B.B.C. ac un arall gen Gerddorfa Sumffoni'r B.B.C. Yma eto, llwyddiant y trefniannau yw nad yw symlrwydd yr alawon yn mynd ar goll, ac mae cynildeb y cyfansoddwr yn taro deuddeg bob tro. Carwn petaem yn clywed mwy ar y math yma o gerddoriaeth gan ei fod yn gyfle i lu o ddilynwyr cerddoriaeth sy heb wybod dim am ein diwylliant na'n hiaith gael blasu rhan ohono a dod yn gyfarwydd â'n cyfoeth o alawon gwerin.

Creodd Janet Price awyrgylch hyfryd wrth ganu'r bedair gweddi o'r Gaeleg, a dyma enghraifft o ddatblygiad Mansel Thomas fel cyfansoddwr — o symylrwydd cerddorol "Caneuon Grace a Siân" i'r dull mwy cyfoes yn adeiladwaith y gwaith yma. Eto awyrgylch gyntefig Geltaidd a greir yn y gwaith yma.

Uchafbwynt y cyngerdd i unrhyw Gymro Cymraeg oedd gweld y cyfansoddwr yn arwain Côr Pendyrus a'r Gerddorfa mewn datganiad o'i drefniant o Llef a Llanfair. Dyma brofiad gwefreiddiol a gododd y cyngerdd i uchafbwynt, ac yn ddiweddglo teilwng i gydnabod cyfraniad Mansel Thomas i fywyd cerddorol Cymru.



**Mansel Thomas** *Llun BBC*

Edrychaf ymlaen at fynd i gyngerdd penblwydd Arwel Hughes, a thybiaf mai tebyg fydd y profiad hwnnw gan y perthyn Arwel Hughes hefyd i'r un cyfnod â Mansel Thomas. Y mae i Arwel Hughes yr un nodweddion a'r dewrder i arddel ei gefndir, ac i adlewyrchu'r Gymru Gymraeg a'i diwylliant arbennig ei hun yn ei gerddoriaeth yntau.


## Canolfan yr Urdd Caerdydd

Dawns Fawreddog
yn Neuadd y Ddinas Caerdydd

Nos Wener 21 ain Medi/79
haner awr wedi saith

Bar Buffet Adloniant
Dawnsio hyd 1-00 a.m.
Gwisg ffurfiol

Tocynnau £5-00 ar gael o Ganolfan yr Urdd.


## DILYS DAVIES

Yn ystod mis Mehefin bu farw un o'r bobl fwyaf adnabyddus yng Nghymru, yr actores Dilys Davies, yn 71 oed.

Ganed hi yn Nowlais ym 1908, hyfforddwyd hi'n athrawes yn Abertawe ac fel adroddwraig, enillodd ei llawryfau yn ifanc yn yr Eisteddfod Genedlaethol lle y dyfarnwyd y wobr gyntaf iddi bump o weithiau. Wedi hynny, bu'n actio am weddill ei hoes, ar y llwyfan yng Nghymru ac yn Llundain, mewn ffilmiau — yr oedd hi yn Proud Valley gyda Paul Robeson — ac, yn enwedig, ar y cyfryngau torfol. Dechreuodd ar y radio dros hanner can mlynedd yn ôl ar ddiwedd y 20au, gan chwarae llawer rhan lwyddiannus megis y fam yn y gyfres boblogaidd Teulu Tŷ Coch ryw chwarter canrif yn ôl. Fel Metron Howells yn y gyfres deledu Pobl y Cwm y bu hi fwyaf adnabyddus i'r to ifanc, ac roedd yn dal i chwarae'i rhan yn hon pan fu hi farw.

Gwnaeth Dilys gyfraniad enfawr i'r ddrama yng Nghymru o ddyddiau'r ddrama leol hyd at heddiw. Mawr yw ein dyled iddi, a melys y cof amdani.

## PENBLWYDD CYMDEITHAS GYMRAEG PENTWYN, LLANEDEYRN A'R CYLCH.

Mae Cymdeithas Gymraeg Pentwyn, Llanedeyrn a'r Cylch yn UN oed!! Bydd dathliad ein penblwydd nos Wener, Gorffennaf 6 ed, pan awn am swper i'r Cefn Mably Arms. Pwy feddyliai flwyddyn yn ôl pan sefydlwyd y Gymdeithas fod cymaint o Gymry Cymraeg yn byw yn yr ardal - tua 80 ar ein rhestr llythyrau ni! A faint rhagor tybed? Diolch i bawb sydd wedi cefnogi'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn, ac yn arbennig i Geraint Jones am drefnu yr helfa drysor ddiweddar, pan gafwyd cymaint o hwyl gan bawb.

Croeso i aelodau newydd ymuno â ni ym mis Medi, - bydd y cyfarfod blynyddol yng Nghanolfan Gymdeithasol Pentwyn ar y 15 fed o Fedi am 8.00 or gloch. Dewch yn llu, - Bydd croeso i chi!!

Avril Jones
Cadeirydd.

# Lansdowne a Chastell Newydd Emlyn

Beth yn y byd sydd a wnelo'r ddwy ardal yma, un ohonyn nhw yn un o ardaloedd y brifddinas a'r llall yn dref nid anenwog yn Nyffryn Teifi, a'i gilydd, meddech chi, ddarllenwyr y Dinesydd? Wel, yn fyr, â'r cwestiwn llosg hwnnw, 'achub yr iaith', y mae a wnelo. Y ffaith drist yw tra bo plant Dyffryn Teifi yn prysur golli eu mamiaith.

Mi ges i'r fraint ddydd Sadwrn Barlys eleni i annerch cynhadledd o athrawon a rhieni yng Nghastell Newydd Emlyn, ar ôl derbyn gwahoddiad oddi wrth Mr. Cynog Davies, ysgrifennydd dyfal Mudiad Addysg Ddwyieithog Dyfed. Doeddwn i ddim yn falch o gwbl i dderbyn y gwahoddiad, oherwydd gwyddwn o'm profiad, fel Cyfarwyddwr Cynllun Addysg Ddwyieithog y Cyngor Ysgolion (1968-75), mai fel meddyg yr 'ail biniwn' y gelwid am fy ngwasanaeth i bob amser — a hynny pan fyddai pethau'n ieithyddol wedi mynd i'r wal, tu hwnt i bob gobaith. Yn wir, ar gyfer sefyllfaoedd felly y bwriadwyd y Cynllun. Ond hoffwn i bob amser feddwl amdani fel sefyllfa 'tabula rasa' — y llechen lân, lle roedd yna obaith y byddem yn cael dechrau o'r cychwyn cyntaf. Roedd yna obaith y byddem yn cael dechrau gyda'r dosbarth derbyn ac yn cael gwarant am ychydig o'r amodau angenrheidiol.

## Y CYNLLUN ADDYSG DDWYIEITHOG

Ym 1968, pan ddechreuoedd y Cynllun, roeddwn yn falch mai'r trefi diwydiannol a threfi'r arfordir ac ardaloedd y gororau yn unig oedd ein maes cenhadol, ac nid oedd angen pryderu, wrth gwrs, am ardaloedd fel Dyffryn Teifi. Er hynny, roedd yr arwyddion yn y gwynt a'r drwg fel nwy gwenwynllyd o dan y drws, yn ymdreiddio i'r cadarnleoedd — os bu lleoedd felly yn ddiweddar. Gwyddwn am beth oedd yn digwydd ym mro fy mebyd yn Sir Benfro, lle nad oes yna Landsker bellach; ac ofer fu ein rhybuddion, fel y gwelwyd nifer ysgolion y Cynllun yn cynyddu o 28 ym 1968 hyd ar dros 200 ym 1975. A'r cwestiwn yng nghefn fy meddwl o hyd oedd, 'Pryd fydd eisiau help arnyn nhw yn yr ardal hon?'

Dichon y gallem ddweud, o gymharu a gwrthgyferbynnu y sefyllfa ieithyddol yn y ddwy ardal, ei bod yn wynfyd arnyn nhw yng Nghastell Newydd Emlyn, a'r gwir yw nad yw pethau, o bell ffordd, wedi mynd i'r wal. Ond mae yna berygl mawr, a does gyda ni ond gobeithio y bydd pobl fel Mr Cynog Davies a'r cyfeillion yno, sy'n effro i'r dirywiad yn gallu peri i'r gymdeithas weithredu mewn pryd er atal y dirywiad.

Afraid dweud bod y sefyllfa ieithyddol yn gymhleth yng Nghymru, ac ni wna'r ateb i'r broblem sy'n dderbyniol yn ardal Landsdowne y tro yn Nyffryn Teifi. Ond mae'n rhaid cael rhyw ateb i'r sefyllfa ieithyddol sy'n gwaethygu'n gyflym oherwydd dylifiad y di-Gymraeg o bob oedran i mewn i'r ardal, a'r perygl yw fod yr anobaith yn yr ysgolion yn peri i rai athrawon ddewis y ffordd hawdd allan o'r sefyllfa, sef troi'r ysgolion yn ysgolion Saesneg eu cyfrwng. Dim ond esgor ar sefyllfa lle nad oes gan y plant ond dwy fratiaith fel cyfrwng mynegiant yw canlyniad y fath bolisi â hwn. Mae hyn i'w glywed ar iard yr ysgol, ar y stryd ac ar y radio a'r teledu pan fo yna ymglyw ddifyfyr.

## DWY SEFYLLFA WAHANOL

Creu sefyllfa ddwyieithog na fu yno o'r blaen a wneir mewn ysgolion fel Heol Llanisien Fach, Ton yr Ywen, Lansdowne a'r Eglwys Newydd, ond adfer y sefyllfa ieithyddol neu adeiladu rhagfuriau ar seiliau o Gymreictod sydd o hyd yn gadarn mewn rhannau helaeth o gymdeithas yw gobaith ysgolion cynradd Dyffryn Teifi, gan obeithio y bydd hynny yn gwarantu ysgolion cyfun dwyieithog maes o law, fel sy gyda ni yng Nglantaf, Llanhari a Rhydfelen. Ac fe fydd rhaid gwneud y Gymraeg yn gyfrwng dysgu yn yr ysgolion cyfun yn Nyfed. Y ffaith ddiymwad yw bod yr ysgolion yma hyd yn hyn wedi bod wrth wraidd y seisnigeiddio ac i'w beio lawn cymaint, os nad yn fwy na'r ffaith bod dylifiad y plant iau di-Gymraeg i'r ysgolion cynradd wedi helpu'n fawr i droi'r rhain yn ysgolion seisnig.

Mae'r ffaith fod y gynhadledd hon wedi'i chynnal yn brawf nad yw hi ym mwriad y rhai sy'n effro i'r sefyllfa weld y dirywiad yn mynd yn ei flaen hyd nes i'r dydd wawrio pan fydd eisiau i blant bach Dyffryn Teifi, fel plant bach Lansdowne, ddechrau ar lechan lân. Yn yr ysgol ddyddiol y collwyd y Gymraeg ac yno y bydd rhaid ei hadfer hefyd. Mae'r Gymraeg, diolch i drefn Rhagluniaeth, yn waddodol gryf o hyd yn Nyffryn Teifi, er efallai heb fod yn ddigon cryf heb gymorth positif yr ysgolion i alluogi'r mewnddyfodiaid ddod yn ddwyieithog drwy gymhathiad fel a ddigwyddodd gyda'r noddedigion yn ystod y rhyfel.

Down felly at yr enghraifft lwyddiannus arall a allai gynnig help i gyfeillion Dyffryn Teifi yn eu hymdrechion, sef yr Ysgol Gymraeg. Mae'n rhyfedd meddwl mai'r Ysgol Gymraeg draddodiadol yng nghefn gwlad, fel a geid yn Nyffryn Teifi, oedd y ddelfryd a'r nod a osodwyd o flaen yr Ysgol Gymraeg newydd gyntaf yn Aberystwyth yn 1939 a'r Ysgolion Cymraeg yn y trefi diwydiannol a sefydlwyd o 1947 ymlaen. Gallwn ofyn felly, paham y llwyddodd y rhain y pham y dirywiodd y lleill? A phaham y ceisiodd Ysgolion Cynllun Addysg Ddwyieithog y Cyngor Ysgolion efelychu'r Ysgolion Cymraeg newydd yn hytrach na'r Ysgolion Cymraeg traddodiadol?

## AMODAU LLWYDDIANT Y CYNLLUN

Mi allwn feddwl mai'r prif reswm oedd am fod yna nod ac amodau pendant gan yr Ysgolion Cymraeg newydd, ac o sicrhau y rhain fe all unrhyw ysgol yng Nghymru warantu nid yn unig achub yr iaith Gymraeg ond hefyd bod ein plant yn cael yr addysg orau posib yng Nghymru heddiw.

Beth yw'r amodau hyn felly? Wel, yn gyntaf mae'n rhaid dod o hyd i brifathro a staff cwbl argyhoeddedig ac ymroddedig. Gwefr fwyaf y Cynllun Addysg Ddwyieithog oedd clywed athrawon yn tystio eu bod wedi eu llwyr argyhoeddi'n awr ei bod yn bosib i blentyn bach o gartref cwbl-seisnig fod yn ddwyieithog cyn iddo adael yr ysgol gynradd. Onid oedd hyn yn wir amdanom ni a ddaeth o gartrefi Cymraeg ers lawer dydd? Paham, felly, y rhyfeddu a'r synnu? Mae'n golygu gwaith caled ac ymroad llwyr, ond mae'r ymdrech yn werth chweil, am na cheir y wefr a'r adwaith yma ond yn anaml iawn mewn ysgol uniaith Saesneg.

Yr ail amod yw bod yn rhaid ennill cydweithrediad a diddordeb y rhieni. Fe all rhagfarn a gwrthwynebiad (yn codi o anwybodaeth) wneud cymaint o ddrwg a dadwneud y gwaith da a wneir yn yr ysgol. Does yna'r un rhiant nad yw'n dymuno i'w blentyn gael yr addysg orau ac y mae llwyddiant yr Ysgolion Cymraeg newydd a'r Ysgolion dwyieithog yn brawf i wrthsefyll dadleuon y gwrthwynebwyr. Rhaid yw dangos iddyn nhw y profion a'r canlyniadau a gyhoeddwyd yn sgil yr asesiad a'r ymchwiliad mwyaf manwl a gwyddonol a wnaed yn ystod blynyddoedd y Cynllun Addysg Ddwyieithog, ac mae'r ffeithiau a'r ystadegau wedi'u cyhoeddi i bawb eu gweld a'u hastudio.

Y trydydd amod yw bod yn rhaid dechrau gyda'r gwaith cyn gynted ag sy'n bosib. Am resymau addysgol, niwrolegol ac ieithyddol mae'n bwysig bod y plentyn bach yn amsugno'r ddwy iaith 'gyda'i laeth' fel petai. Yn yr ysgol Feithrin ac yn Ysgol y Babanod mae'r wyrth yn digwydd, ac os dilynir a gwneir defnydd o'r cyfoeth o ganllawiau a chynorthwyon a geir yn awr, ni ellir dweud nad oes modd na help i gario allan y gwaith yma. Hyd yn oed, pan yn dechrau gyda phlant hŷn na'r babanod mae'n rhaid gwneud yr iaith yn gyfrwng addysg, ac nid gwers ramadegol yn unig. Po fwyaf yr oriau y mae'r plentyn mewn cyswllt â'r iaith, gyntaf i gyd y daw yn ddwyieithog. Y polisi o gymhathu'r mewn-ddyfodiaid, naill ai yn yr ysgol neu mewn rhyw ganolfan arbennig yw'r unig un sy'n sicrhau llwyddiant. Os gwneir yr iaith yn gyfrwng dysgu fe sicrheir bod yna raddio geirfa ar y cychwyn wrth gyflwyno gwybodaeth neu wrth ddysgu sgiliau a rhoi profiadau diddorol, yna fe arweinir y plentyn i ymgiprys â darllen ac ysgrifennu'n greadigol.

Y pedwerydd amod yw bod yna barhad a dilyniant i'r gwaith o'r dosbarth derbyn i ben draw addysg y plentyn yn yr ysgol gyfun neu'r Coleg, ac mae gennym ddigon o enghreifftiau heddiw o blant o gartrefi Saesneg eu hiaith a gafodd eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg o'r Ysgol Feithrin i'r Brifysgol. Mae angen seiri dwyieithog yn ogystal â phenseiri dwyieithog yng Nghymru heddiw. Nid gwers ar yr amserlen ddylai'r Gymraeg fod — yn ddibynnol ar fympwy prifathro, athro dosbarth neu gyfleustra gweinyddol — ond hawlfraint pob plentyn sy'n byw yng Nghymru.

## BRAINT ADDYSG DDWYIEITHOG

Onid yw yn drist i feddwl bod plant yr Ysgolion Cymraeg newydd, hyd yn oed ar dir economeg, heb sôn am lefelau uwch, yn fwy breintiedig na rhai o blant bach Dyffryn Teifi? Dywedaf hyn am y gall merch 18 oed, dyweder, o'r Barri, er yn dod o gartref seisnig, am iddi gael ei haddysg yn ddwyieithog, ennill mwy na merch o'r un cefndir yn Nyffryn Teifi, am ei bod yn medru teipio a defnyddio llawfer yn y ddwy iaith. A beth am blant uniaith Saesneg Castell Newydd Emlyn, nad ydynt yn medru deall rhaglen deledu neu radio yn Gymraeg, ac na allant ymuno yng ngweithgareddau'r Urdd ar Faes yr Eisteddfod neu yn Llangrannog a Glanllyn? Dyna ddagrau pethau ynte — a dyna paham rydw i'n gobeithio y bydd yna ateb buan i'r problemau y buwyd yn eu trafod dydd Sadwrn Barlys yng Nghastell Newydd Emlyn.

A thra nad ydyn nhw ond yn trafod y materion hyn, mae yna ddwy Ysgol Gymraeg newydd ac annibynnol arall ar fin cael eu sefydlu yn Ne Morgannwg, sef Ysgol Gymraeg Eglwys Wen ac Ysgol Gymraeg y Bontfaen. Mae hyn yn destun llawenydd, ond rhag inni lawenhau gormod, beth am yr ugeiniau o ysgolion uniaith Saesneg sy'n bodoli o hyd o fewn y sir? Rhaid peidio â bodloni ar y 'status quo' ond mynd ati i ychwanegu'n gyson at nifer yr Ysgolion Cymraeg newydd ym mhobman yn Ne Morgannwg ac ym mhob man arall yng Nghymru.

G. Elwyn Richards

# Drama wedi bod ... un i ddod?

## TERFYN Michael Povey

### Oblygiadau'r argyfwng?

**Perfformiwyd 'Terfyn' gan Theatr yr Ymylon yn y Sherman Nos Sul Mehefin y 10fed. Braf iawn oedd gweld prif theatr y Sherman bron dan ei sang ar gyfer y ddrama ddiddorol hon.**

Yr argyfwng a wynebir gan ein cenedl ni, yn cael ei bortreadu drwy lygaid pâr priod ieuanc, oedd prif thema'r ddrama. Daethom i dderbyn bellach drwy fynychu'r theatr Gymraeg fod Michael Povey yn ddramodydd anghyffredin a 'chwyldroadol' yn nhyb rhai cynulleidfaoedd mwy traddodiadol eu chwaeth. Rhagoriaetha'r dramodydd wrth iddo ddefnyddio dychan slic i gyfleu gwewyr meddwl y pâr ifanc yma. Roedd y ddeialog yn rhedeg yn naturiol iawn ac yn bleser i'r glust drwy gydol y ddrama. Elliw Haf oedd yn chwarae Lois a Myrddin Jones, Dafydd. Dyma ddau berfformiad arbennig o ddeheuig gan ddau actor ifanc. Roedd y cyd-weithio a'r amseru ar adegau yn gywrain tu hwnt. Cafwyd defnydd gwych iawn o amseru seibiannau gan y ddau, techneg sydd yn hanfodol bwysig gan mai dim ond dau gymeriad oedd i'r ddrama.

Yr hyn sy'n profi llwyddiant cynhaliaeth dau actor mewn drama hir i mi yw nad wyf yn disgwyl gweld trydydd person, ac yn wir ni theimlais hyn drwy gydol y ddrama. Rhaid yw i mi grybwyll un peth a darfodd ryw gymaint ar y perfformiad sef i'r seibiannau wrth newid golygfeydd fod yn hir iawn. Ni allaf weld fod anhawster i newid dillad ag ati ar y llwyfan, yn hytrach na mynd i'r ochrau.

Teimlad o anniddigrwydd a gefais ar ddiwedd y ddrama, teimlad pesimistaidd ynglŷn â'r Gymru sydd ohoni. Braf yw cael ysgogiad meddwl wedi profiad theatraidd o'r safon yma. Profiad digalon a gefais ar un llaw ond yn bersonol gwelaf y wawr yn hytrach na'r machlud wedi cael amser i ail ystyried y "Terfyn".

**Yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 1978 trefnwyd gan yr Adran Drama gystadleuaeth cyfieithu drama hir gan awdur Americanaidd. Dewisodd Mrs. Heulwen M. Thomas, Llandâf, a ddaeth yn gydradd cyntaf, gyfieithu *Our Town* gan Thornton Wilder a chafodd ei chyfieithad gamnoliaeth uchel gan y beirniad, Mrs. Elan Closs Stephens.**

Awdur a ddiflasodd ar ddramau nad oedd yn cyffwrdd ag ing bywyd yw Thornton Wilder. Nid ymgais i roi darlun o fywyd fel yr oedd mewn pentref bychan ar ddechrau'r ganrif yn unig sydd yma, nag ychwaith rhyw geisio dyfalu ynghylch bywyd y tu hwnt i'r llen, ond yn hytrach ymdrech i ddod o hyd i werth amhrisiadwy y pethau bychain sy'n digwydd yn ein bywydau beunyddiol.

Pan ganiateir i Emily, ar ôl ei marwolaeth, gael ail-fyw un diwrnod yn ei bywyd, mae'n dewis ei phenblwydd yn ddeuddeg oed, un o'r diwrnodau mwyaf dibwys yn ei bywyd. Ond ni all ail-fyw y diwrnod ar ei hyd. 'Alla i ddim mynd mla'n!' medd hi, 'Mae e (bywyd) yn mynd mor gyflym . . . Dyna i gyd yw bodau dynol! Jest pobl ddall.' Mae'r profiadau a gaiff Emily a'r cymeriadau eraill yn y ddrama yn gyffredin ym mywydau llawer iawn ohonom a dim ond yn nyfnderoedd ein bod y mae'r digwyddiadau 'n troi yn bethau absoliwt, unigryw i ni ein hunain.

Gan y byddai llawer o gelfi ar y llwyfan yn cyfyngu'r digwyddiadau o ran lleoliad ac amser ac yn effeithio ar ein hymateb ninnau i'r ddrama, ychydig yw'r 'props'. Diau bod hyn yn rhoi tipyn o sialens i gynhyrchydd ac actorion, ond mae'r cyfieithad yn sicr yn hawlio sylw cwmniau drama ledled Cymru ac edrychir ymlaen yn eiddgar at weld cyhoeddir'r cyfieithad hwn. Mae'r ddrama'n gymwys iawn i'w pherfformio gan blant ysgol — ac fe ŵyr pawb mor brin yw deunydd o'r fath ar gyfer pobl ifainc.

Mae Mrs. Heulwen Thomas i'w llongyfarch, nid yn unig ar ei llwyddiant yn y gystadleuaeth, ond hefyd ar ei dewis o ddrama i'w chyfieithu. Gobeithio y bydd y gamnoliaeth uchel a gafodd gan y beirniad yn ei hysbrydoli i gyfieithu rhagor o ddramau ar ôl symud, gyda'i gwr, David, i'w chartref newydd yn Aberystwyth yn mis Awst.

Pob dymuniad da iddyn nhw yn eu Cartref newydd.

## RHAGOR O BYTIAU

Mae plentyn bach newydd ar aelwyd Noel ac Ann Brain a rŷn ni am ddweud 'Llongyfarchiadau' wrth ei rieni. O Gaernarfon y mae Ann yn hannu, a chyfarfu â'i gŵr ar y staff yn Ysgol Howardian. Athro Lladin yw Noel sy wedi dysgu Cymraeg ac athrawes y Gymraeg oedd Ann. Parhaed y cyd-weithio hapus nawr eu bod yn dri!

* * *

Derbyniodd un arall o blant Caerdydd swydd yn Ysgol Gyfun Llanhari — fel athrawes Ffrangeg y tro hwn. Mrs Bethan Lewis (nee Pierce) oedd yr ymgeisydd llwyddiannus. Braf iawn yw gweld plant o Gaerdydd a fu o fewn blwyddyn i golli cael addysg yn Gymraeg eu hunain mor frwd i ymladd brwydr y Gymraeg dros y plant yn ein hysgolion nawr. Roedd chwaer Bethan, Siân, hefyd yn un o'r 18 cyntaf ym Mryntaf.

* * *

Anodd meddwl bod Mrs Annie Humphreys wedi cyrraedd oed yr addewid — mae wedi bod mor heini o gwmpas y brif-ddinas ers cymaint o flynyddoedd. Llongyfarchiadau calonnog iddi a braf iawn oedd clywed iddi ddathlu ei phenblwydd mewn parti mawr, a'r teulu i gyd yn dod i ddymuno'n dda iddi.

* * *

Croesawn olygydd newydd, sef Mr. Raymond Edwards, un o'r rhai fu'n ymgyrchu gynt dros gael Ysgol Gymraeg i'r Barri ac Ysgol Rhydfelen. Bu'n dysgu yn Ysgol Howardian, Caerdydd, a Ffrangeg a Chymraeg yn bynciau iddo cyn ymuno ag Adran Ysgolion y BBC yn 1948, a fel Mr Raymond Edwards y BBC yr oedd llawer ohonom yn ei adnabod y dyddiau hynny. Ers hynny bu'n Arolygwr ei Mawrhydi nes ymddeol ddwy flynedd yn ôl. Mae'i ddiddordeb yng Nghymru a'r iaith mor gryf a ffyddiog ag erioed a phan aeth rhai o'r pwyllgor golygyddol i ofyn iddo fod yn olygydd, fe gydsyniodd, a mawr iawn yw ein diolch iddo.

Croesawn hefyd ysgrifenyddes newydd, Mrs Nans Couch. Bu hi'n ysgrifenyddes yn Ysgol Rhydfelen cyn ymddeol i fod yn fam yn ddiweddar iawn a chyn hynny bu'n ysgrifenyddes yn Swyddfa'r Blaid.

Diolchwn hefyd i Mrs Bethan Roberts am ei holl lafur a dymunir yn dda i'r swyddogion newydd.

## CBAC yn symud

Yn dilyn cynnydd yn nifer y papurau arholiadau a drafodir gan Adran Arholi Cyd-bwyllgor Addysg Cymru, bu'n rhaid i Adran Gymraeg ac Adran Addysg Bellach y Cyd-bwyllgor symud o 245 Western Avenue i Dŷ Arlbee (Tel. 25511) yn Heol y Brodyr Llwydion ddechrau mis Mehefin. Erbyn eleni tafolir dros filiwn o bapurau arholiadau gan yr Adran Arholi a rhaid oedd cael mwy o stordai ac ystafelloedd pwyllgora. Codwyd 245 Western Avenue yn wreiddiol ar gyfer Teledu Cymru a phrynwyd yr adeilad gan y Cyd-bwyllgor oherwydd bod yr hen swyddfa yn 30 Heol yr Eglwys Gadeiriol yn rhy fach.

Parhau i gynyddu wnaeth y gwaith a'r dyletswyddau ym maes arholi, y Gymraeg ac Addysg Bellach a rhaid oedd sicrhau swyddfeydd newydd yn Nhŷ Arlbee.

Lleolir yr Adrannau Cymraeg ac Addysg Bellach yn Nhŷ Arlbee tan 1982. Bydd tua 30 o staff y Cyd-bwyllgor yn gweithio yno. Yn y cyfamser gobeithir chwilio am le addas yng nghyffiniau'r ddinas i leoli tair adran y Cyd-bwyllgor dan yr un to unwaith yn rhagor.


**HYSBYSEBU**

**Am fanylion ynglŷn â'n telerau hysbysebu, cysyllter â:**

**Cyhoeddwyr Cleglen Cyf,**
**43 Heol Eglwys Gadeiriol Isaf,**
**Caerdydd CF1 8LW.**
**Ffôn: 0222-396262**

(Danfoner pob deunydd hysbysebu i'r cyfeiriad uchod, os gwelwch yn dda.)

# GORSEDD y BEIRDD

**Eleni yng Nghaernarfon bydd dau o Gymry'r brifddinas yn cael eu gwneud yn aelodau o Orsedd y Beirdd, sef Mr A H Williams, yr hanesydd a chyn-Arolygydd Ysgolion Ei Mawrhydi, a Mr Meic Stephens, Cyfarwyddwr Llenyddiaeth Cyngor Celfyddydau Cymru.**

Un o bentref Tan-y-fron ym mhlwyf Brymbo ger Wrecsam yw A H Williams yn wreiddiol, ac un a fu'n fyfyriwr ym Mangor ym meysydd hanes a hanes Cymru yn enwedig, o dan y cawr hwnnw ymhlith haneswyr Cymru, y diweddar Syr John Edward Lloyd.

Eisoes yn y tridegau yr oedd wedi dechrau ysgrifennu ar hanes Cymru. Ei gyfraniad mawr cyntaf oedd ei waith gwerthfawr **An Introduction to Welsh History.** Cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf yn y tridegau a'r ail wedi'r rhyfel. Ffurf arall ar ei ddiwydrwydd didor ym maes hanes Cymru oedd ei olygyddiaeth drwy gyfnod hir o fwy nag 21 mlynedd o'r cylchgrawn hanesyddol enwadol **Bathafarn.**

Ar hyd y blynddoedd hyn, bu'n brifathro Ysgol Ramadeg Brynhyfryd, Rhuthun ac yna yn aelod o'r Arolygaeth Ysgolion yng Nghymru. Ac ni ddaeth y gweithgarwch i ben pan ymddeolodd, oherwydd wedi i hyn ddigwydd, cawsom ddwy gyfrol ddiddorol iawn arall o'i law, un ar Gymru yn oes Victoria a'r llall ar John Wesley a Chymru.

Y peth pwysicaf oll yng ngwaith A H Williams yw'r pwyslais a roddodd ar hanes Cymru. Mae ei neges i Gymru yn syml: dysgwn hanes Cymru i'n plant, a thrwy'r fframwaith syml hwn, hanes cenhedloedd eraill. Mae'r Orsedd yn ei hanrhydeddu ei hun drwy'i wahodd ef, a wnaeth gymwynas mor fawr â'r genedl, i fod yn aelod ohoni.

Ganed Meic Stephens yn Nhrefforest. Wedi arbenigo yn y Ffrangeg yn y brifysgol fe ddysgodd Gymraeg, a chyda'i wraig Ruth, cododd dair o ferched yn Gymry Cymraeg. Wedi ymadael â'r brifysgol chwaraeodd ran bwysig ym meysydd diwylliant, gwleidyddiaeth a llenyddiaeth, a bu'n nodweddiadol o'r newid a ddigwyddodd ymhlith Eingl-Gymry yn y cyfnod wedi'r rhyfel, sef yn natblygiad eu hymwybyddiaeth o'u Cymreictod er nad Cymraeg yw iaith eu mynegiant. Gellir dweud bellach bod yr hen agwedd ddilornus tuag at Gymru a welir yn ei heithafrwydd yn Caradoc Evans bron wedi marw ymhlith yr ysgrifenwyr hyn. Yn wir, gellir dweud mai yn eu plith hwy nawr y ceir rhai o amddiffynwyr mwyaf pybyr Cymru a'r Gymraeg.

Fel bardd y daeth Meic Stephens i'r amlwg yn nechrau'r chwedegau pan gyhoeddodd **Triad** (ar y cyd â Harri Webb a Peter Gruffydd) ac **Exiles All,** ac am flynyddoedd, fe a lywiodd y Triskel Press, gan olygu'r cylchgrawn **Poetry Wales** a sefydlwyd ganddo ym 1965. Yn ei swydd bresennol, bu'n olygydd y gyfres **Artists in Wales** (tair cyfrol hyd yn hyn) ac yn gyd-olygydd i'r gyfres o ddeugain cyfrol (eto hyd yn hyn) **Writers of Wales,** cyfres sydd wedi agor llygaid llawer o bobl yng Nghymru i drysorau yn y ddwy iaith na wyddent amdanynt o'r blaen. Yn y gyfrol a olygwyd ganddo, **The Welsh Language Today,** cawsom arolwg gwerthfawr o gyflwr a safle'r Gymraeg ar hyn o bryd, ac yn ei lyfr **Linguistic Minorities in Western Europe,** ehangwyd y maes i gymryd golwg debyg ar ieithoedd holl leiafrifoedd gorllewin Ewrop.

Yn **The Lilting House,** rhoes inni flodeugerdd o'r beirdd Eingl-Gymreig ac ym 1978 ail flodeugerdd debyg yn **The Green Horse.** Cyn bo hir, ymddengys arolwg arall o dan ei olygyddiaeth ef, sef **Y Celfyddydau yng Nghymru 1950-1975,** ac ar hyn o bryd, mae'n ddiwyd wrthi'n paratoi cyfrol o 750,000 o eiriau, **Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru** fydd yn ffrwyth cynllun o ryw bum mlynedd o waith.

Arwyddair Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Caerdydd yw "Coron Gwlad ei Mamiaith". Lowri, merch Meic Stephens, a disgybl yn yr ysgol piau'r perl yma o arwyddair ac y mae'n crisialu mewn dull diarhebol agwedd ac ymdrech ei thad ynglŷn â'r Gymraeg. Bydd 'Mihangel o Gwm Taf' yn un arall o drigolion y brifddinas y bydd yn anrhydedd i Orsedd y Beirdd ei gael yn ei rhengoedd.




**GWESTY LLETY CYMRO**

143 HEOL YR EGLWYS GADEIRIOL CAERDYDD. FFÔN 399659

**GWELY A BRECWAST BWYD A GWIN DA**

TRWYDDED PRESWYL

# Llenor Rhyngwladol 1980

**Cyhoeddodd Cyngor Celfyddydau Cymru fod Gwobr Llenor Rhyngwladol 1980 i'w chyflwyno i Derek Walcott, y bardd a'r dramodydd o Trinidad.**

Bwriad y Cyngor yw i'r Wobr hon, o £1,000 fod yn deyrnged genedlaethol i orchestwaith rhyngwladol ym myd llenyddiaeth, ac fe'i dyfernir bob yn ail flwyddyn.

Dyfarnwyd y wobr i Eugène Ionesco ym 1974, i Friedrich Dürrenmatt ym 1976 ac i Astrid Lindgren ym 1978.

Ganed Derek Walcott yn St Lucia, India'r Gorllewin, ym 1930 ac ef a sefydlodd Weithdy Drama Trinidad. Y mae wedi gweithio fel athro a newyddiadurwr ac wedi derbyn, ymhlith anrhydeddau eraill, Wobr Guinness am Farddoniaeth, Gwobr Heinemann, Gwobr Cymdeithas Frenhinol Llenyddiaeth a Gwobr Cholmondeley.

Y mae Walcott, bardd mwyaf llenyddiaeth y Caribi ym marn llawer, wedi ysgrifennu wyth cyfrol o farddoniaeth. Gwelir ym mhob un ymwybyddiaeth gref o gefndir ac ymhyfrydu mewn campau geiriol. Y mae hefyd wedi ysgrifennu saith drama gan gynnwys, yn fwyaf diweddar, **The Barber of Seville** ac **O Babylon!** - yr olaf yn bortread o gymuned Rastaffaraidd yn Jamaica a fygythir gan ddatblygiadau twristaidd.

Derbyniwyd comisiwn oddiwrth Gyngor Celfyddydau Cymru gan Mr Ned Thomas, o Goleg y Brifysgol, Aberystwyth, i ysgrifennu cyfrol fer ddwyieithog er mwyn cyflwyno Derek Walcott a llenyddiaeth y Caribi yn gyffredinol i ddarllenwyr Cymru. Gwelwyd arddangosfa ar lenorion yr Affrig a'r Caribi, gan gynnwys Derek Walcott ei hun, yn Theatr Sherman, Caerdydd, yn ddiweddar.

Y mae Adran Lenyddiaeth Cyngor Celfyddydau Cymru ar hyn o bryd yn trefnu rhaglen o weithgareddau ar gyfer ymweliad Derek Walcott â Chymru ym mis Hydref 1980.

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd, Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, Lower Cathedral Rd, CAERDYDD, Ffôn 396262*

*C2278*